



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Cynllun y Trydydd Sector

Ionawr 2014



Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

ISBN argraffu 978 1 4734 0900 2  
ISBN digidol 978 1 4734 0899 9  
© Hawlfraint y Goron 2014  
WG20858

# Pennod 1. Cyflwyniad

## Y Sefyllfa Statudol

- 1.1. Gwneir y Cynllun hwn o dan Adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud cynllun sy'n amlinellu sut maent yn bwriadu hybu, wrth gyflawni eu swyddogaethau, fuddiannau mudiadau gwirfoddol perthnasol. Dangosir Adran 74 isod. Mae'r Cynllun hwn yn defnyddio'r term "trydydd sector" yn hytrach na sector gwirfoddol a "chynllun y trydydd sector" yn hytrach na chynllun y sector gwirfoddol.

### *Section 74*

- (1) *The Welsh Ministers must make a scheme ("the voluntary sector scheme") setting out how they propose, in the exercise of their functions, to promote the interests of relevant voluntary organisations.*
- (2) *In this section "relevant voluntary organisations" means bodies (other than local authorities or other public bodies) whose activities –*
- (a) are carried on otherwise than for profit, and*
  - (b) directly or indirectly benefit the whole or any part of Wales (whether or not they also benefit any other area).*
- (3) *In determining the provision to be included in the voluntary sector scheme, the Welsh Ministers must consider how they intend to exercise such of their functions as relate to matters affecting, or of concern to, relevant voluntary organisations.*
- (4) *The voluntary sector scheme must specify –*
- (a) how the Welsh Ministers propose to provide assistance to relevant voluntary organisations (whether by grants, loans, guarantees or any other means),*
  - (b) how the Welsh Ministers propose to monitor the use made of any assistance provided by them to relevant voluntary organisations, and*
  - (c) how the Welsh Ministers propose to consult relevant voluntary organisations about the exercise of such of their functions as relate to matters affecting, or of concern to, such organisations*
- (5) *The Welsh Ministers –*
- (a) must keep the voluntary sector scheme under review, and*
  - (b) may from time to time remake or revise it.*

- (6) *Before making, remaking or revising the voluntary sector scheme, the Welsh Ministers must consult such relevant voluntary organisations as they consider appropriate.*
- (7) *The Welsh Ministers must publish the voluntary sector scheme when they make it and whenever they remake it; and, if they revise the scheme without remaking it, they must publish either the revisions or the scheme as revised (as they consider appropriate).*
- (8) *If the Welsh Ministers publish a scheme or revisions under subsection (7) they must lay a copy of the scheme or revisions before the Assembly.*
- (9) *After each financial year the Welsh Ministers must –*
- (a) publish a report of how the proposals set out in the voluntary sector scheme were implemented in that financial year, and*
  - (b) lay a copy of the report before the Assembly.*

- 1.2. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud Cynllun. Mae Cynllun y Trydydd Sector yn ddatganiad o fwrriad Gweinidogion Cymru i ddatblygu eu perthynas â'r Trydydd Sector ac nid yw Deddf 2006 yn datgan bod ganddo unrhyw effaith rwymol. Efallai y bydd amgylchiadau pan na ellir cyflawni'r bwriadau.
- 1.3. Cafodd y Cynllun ei ddiwygio'n ffurfiol ddiwethaf yn 2004. Yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – *Parhad a Newid: Adnewyddu'r Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru*, (Mai-Awst 2013) – cafodd y Cynllun hwn a'i Atodiadau eu diwygio i ddiweddarau'r fframwaith polisi sy'n sail i'r berthynas hon.
- 1.4. Mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl i bob aelod o'r Cabinet, Dirprwy Weinidog a swyddog hybu buddiannau'r Trydydd Sector yn eu gwaith a'u prosesau penderfynu, a byddant yn:
- Cynnal trefniadau ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori ystyrion â'r Trydydd Sector (Pennod 3);
  - Cynnal trefniadau ar gyfer cynnal cymunedau a gwirfoddolwyr (Pennod 4);
  - Cynnal trefniadau i gynnal seilweithiau sy'n galluogi'r Trydydd Sector i ffynnu (Pennod 5); ac
  - Ymdrechu i lynu wrth y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector a geir fel Atodiad i'r Cynllun hwn.

#### Y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector

- 1.5. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod yn rhaid i'w fframwaith polisi Trydydd Sector gynnwys mesurau i gynorthwyo'r sector fel yr amlinellwyd yn is-adran (4) (a) y ddeddfwriaeth uchod. Bydd lefel yr adnoddau ariannol a fydd ar gael yn penderfynu faint o gymorth o'r fath y gellir ei ddarparu ar ffurf grantiau ac ati, a bydd angen i gronfeydd gael eu targedu yn ôl blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae

Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod ei rôl i sicrhau bod gan y Trydydd Sector fynediad teg a rhesymol at arian cyhoeddus.

- 1.6. Yn ei holl swyddogaethau, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sefydlu a chynnal gweithdrefnau i sicrhau arferion gorau cydnabyddedig wrth weinyddu ei chynlluniau grant a rhai'r asiantaethau hynny sy'n gweinyddu cronfeydd ar ei rhan.
- 1.7. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal, yn defnyddio, ac yn hyrwyddo'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector yn Atodiad A, sy'n amlinellu'r prif egwyddorion a fydd yn sail i gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y Trydydd Sector yn ogystal â'r hyn y mae'r Llywodraeth yn disgwyl ei gael yn ôl gan y Trydydd Sector.
- 1.8. Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector a'r telerau ac amodau'n cael eu cyhoeddi ar yr adeg pan wneir y grant ac mae'n egluro sut y bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r defnydd a wneir o unrhyw gymorth a roddir ganddi i fudiadau perthnasol.
- 1.9. Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector yn cael ei fonitro gan Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector.
- 1.10. Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector yn rhan anhepgor o'r Cynllun. Oherwydd hynny, os caiff y Cod ei ail lunio neu ei ddiwygio rhaid gwneud hynny'n unol â gofynion statudol adran 74.

#### Diffinio'r Trydydd Sector

- 1.11. Mae Adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel yr amlinellwyd ym Mhennod Un uchod) yn diffinio 'relevant voluntary organisations' fel:
  - “...bodies other than local authorities (or other public bodies) whose activities” -
  - are carried on otherwise than for profit, and
  - directly or indirectly benefit the whole or any part of Wales (whether or not they also benefit any other area
- 1.12. Mae 'y Trydydd Sector' yn cael ei ddefnyddio yn y Cynllun hwn a chan Lywodraeth Cymru fel disgrifiad cynhwysol ac eang iawn o ystod o fudiadau sy'n rhannu cyfres o werthoedd a nodweddion. Cydnabyddir yn gyffredinol bod mudiadau Trydydd Sector:
  - yn gyrrff annibynnol, anllywodraethol;
  - wedi eu sefydlu'n wirfoddol gan bobl sy'n dewis trefnu eu hunain;
  - yn cael eu 'gyrru gan werth' a'u cymell gan amcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol, yn hytrach na gwneud elw'n unig;
  - wedi ymrwymo i ail-fuddsoddi eu gweddill ariannol i hybu eu nodau cymdeithasol er budd pobl a chymunedau yng Nghymru.

- 1.13. Hyd yn oed gyda'r ymagwedd hon sy'n seiliedig ar werthoedd cyffredin, mae ystod eang o fudiadau sy'n rhan o'r Trydydd Sector, gan gynnwys cymdeithasau cymunedol, grwpiau hunangymorth, mudiadau gwirfoddol, elusennau, mudiadau ffydd, mentrau cymdeithasol, busnesau cymunedol, cymdeithasau tai, ymddiriedolaethau datblygu, mudiadau cydweithredol a chydfuddiannol.
- 1.14. Mae Almanac Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2013 yn dangos bod y Trydydd Sector yng Nghymru yn cynnwys:
- 33,000 o fudiadau
  - 230,000 o ymddiriedolwyr
  - 1.13m o wirfoddolwyr a phobl sy'n helpu yn eu cymuned
  - 51,000 o gyflogeion
- 1.15 Mae ymchwil gan WCVA yn dangos bod incwm y Trydydd Sector yn £1.6 biliwn yn 2013, a'i fod yn cael ei ategu gan 2.4% o gyllideb Llywodraeth Cymru.<sup>1</sup>
- 1.16 Mae strwythurau, ffurfiau a hunaniaeth gyfreithiol mudiadau Trydydd Sector hefyd yn amrywio'n sylweddol. Maent yn cynnwys mudiadau anghorfforedig, elusennau cofrestredig ac anghofrestredig, cwmnïau cyfyngedig drwy warant (a all fod yn elusennau cofrestredig hefyd), a chwmnïau buddiannau cymunedol, mudiadau elusennol corfforedig a Chymdeithasau Diwydiannol a Darbodus.
- 1.17 Er bod mudiadau unigol yn galw eu hunain yn fudiadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol neu fentrau cymdeithasol, mae'r gwahaniaeth rhwng categorïau o'r fath yn aml yn amwys ac mae dadl gref o hyd dros edrych arnynt gyda'i gilydd fel Trydydd Sector sy'n gwneud cyfraniad hynod bwysig at fywyd Cymru.

---

<sup>1</sup> Adnodd Ystadegol y Trydydd Sector 2013  
<http://www.wcva.org.uk/what-we-do/research/research-publications>

## **Pennod 2. Y Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector**

### **Gwerthoedd a diben cyffredin**

- 2.1. Mae gan Lywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector nifer o werthoedd cyffredin yn ymwneud â rôl unigolion a chymunedau mewn democratiaeth fodern, a fydd yn sail i holl agweddau'r Cynllun hwn. Mae'r gwerthoedd hyn yn ymwneud â chymdeithas:
- sy'n sicrhau nad yw pobl yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd rhyw, hil, ffydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, beichiogrwydd a mamolaeth, neu oherwydd eu bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil, yn anabl neu'n drawsrywiol;
  - sy'n gynhwysol ac yn rhoi cyfle i bobl gyfrannu at ei holl weithgarwch economaidd, cymdeithasol a diwylliannol;
  - sy'n grymuso pobl i gyfrannu at y broses o ddatblygu eu cymunedau, ac yn cydnabod gwerth cyfraniad o'r fath;
  - sy'n dibynnu ar gyfraniad gwirfoddol pobl i feithrin arweiniad cymunedol a gwella democratiaeth leol;
  - sy'n cynnwys y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sy'n ategu ei gilydd ac yn ceisio mynd i'r afael â materion cymdeithasol gyda'i gilydd mewn ysbryd o bartneriaeth;
  - sy'n elwa ar amgylchedd iach ac economi gystadleuol lewyrchus, ynghyd â bywyd cymunedol bywiog, yn sgil ei hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy.
- 2.2. Mae Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yn cydnabod yr heriau y mae gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu. Mae gofynion a disgwyliadau'n cynyddu, ac mae mwy a mwy o bwysau ar arian cyhoeddus. Felly mae ein gwasanaethau ataliol a chymunedol yn bwysicach nag erioed. Rydym yn sylweddoli na all y wladwriaeth ar ei phen ei hun sicrhau ansawdd bywyd, ac mae angen i ni fanteisio ar waith gwirfoddol a gweithredu cymunedol ac adeiladu ar hynny, a helpu cymunedau i fod yn gadarn ar lefel y gymdogaeth leol.
- 2.3. Rydym yn credu y gall y Trydydd Sector helpu i drawsnewid y ffordd mae gwasanaethau cyhoeddus yn bodloni gofynion ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, drwy drin pobl a chymunedau fel asedau ac yn gyfartal wrth gynllunio a darparu gwasanaethau, nid dim ond fel derbynwyr gwasanaethau. Mae rhai pobl yn disgrifio hyn fel 'cydgyhyrchu', ac mae'n golygu datblygu gwasanaethau o amgylch yr unigolyn a'r gymuned a rhyddhau adnoddau posibl fel amser, arian ac arbenigedd i'w defnyddio ar y cyd â chymorth gan y wladwriaeth, nid yn lle'r cymorth hwnnw. Mae adnoddau'n cael llawer mwy o effaith wrth eu defnyddio mewn ffyrdd gwahanol a newydd sy'n cryfhau unigolion a chymunedau. Drwy'r Cynllun hwn byddwn yn gwneud yn siŵr bod y trefniadau ar gyfer gweithio gyda'r Trydydd Sector, ac ar gyfer cynllunio

ac ariannu gwasanaethau cyhoeddus, yn ategu agwedd newydd at wasanaethau cyhoeddus sy'n seiliedig ar gydgyngyrchu.

### Natur y Berthynas

- 2.4. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gydnabod a hybu'r Trydydd Sector. Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r Trydydd Sector am y cyfraniad mae'r sector yn ei wneud at les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor Cymru, ei phobl a'i chymunedau.
- 2.5. Rhaid i'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector fod yn seiliedig ar onestrwydd, ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weld y berthynas hollbwysig hon sydd wedi datblygu dros gyfnod hir yn aeddfedu, er lles pobl a chymunedau yng Nghymru.
- 2.6. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i weithio mewn partneriaeth â'r Trydydd Sector yn ogystal â gwasanaethau a chyrrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Rhaid i bartneriaethau effeithiol fod yn seiliedig ar werthfawrogiad o gyfraniad unigryw pob parti.
- 2.7. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd y Trydydd Sector yn cydnabod lle blaenaf Gweinidogion Cymru wrth lunio polisiau a deddfwriaethau. Yn ei thro, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod cwrmpas eang ac amrywiaeth gweithgarwch gwirfoddol ym mhob rhan o gymdeithas a'r cyfraniad y mae mudiadau gwirfoddol a chymunedol a gwirfoddolwyr unigol yn ei wneud at fywyd economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac ieithyddol Cymru.
- 2.8. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod hefyd bod mudiadau Trydydd Sector yn gyrff annibynnol sy'n penderfynu ar eu blaenoriaethau eu hunain ac yn rheoli eu materion eu hunain, a bod gan y Trydydd Sector ddyletswydd i gynrychioli buddiannau'r rheini mae'n eu cynrychioli. Cydnabyddir hefyd bod mudiadau Trydydd Sector yn gweithredu'n unol â'r egwyddorion y cawsant eu seilio arnynt. Maent yn atebol i'w haelodau a'r unigolion a'r cymunedau maent yn gweithio gyda nhw, ac i gyrff rheoleiddio fel y Comisiwn Elusennau.
- 2.9. Ar sail y gyd-ddealltwriaeth hon o rolau'i gilydd, cydnabyddir bod y Trydydd Sector yn bartner allweddol wrth lunio a chyflawni sawl agwedd ar bolisi cyhoeddus, ac o'r herwydd dylai ddatblygu partneriaethau cryf â llywodraeth genedlaethol a lleol.
- 2.10. O safbwynt gweithio ymarferol, mae'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru (a'r chyrrff mae'n gyfrifol amdanynt) a'r Trydydd Sector yn un amlweddol, ac mae'n cynnwys:
  - Rhannu safbwyntiau a gwybodaeth, drwy ganfod yn gynnar a phrosesau ymgynghori, am effaith y Trydydd Sector ar bolisi a



gweithredu yn y dyfodol, a'r cyfraniad y gall y Trydydd Sector ei wneud;

- Mynd ati ar y cyd i gynllunio, dylunio, monitro a gwerthuso rhaglenni a chynlluniau sy'n cynnwys y Trydydd Sector;
- Ariannu mewn amrywiaeth eang o feysydd polisi, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol;
- Diddordeb cyffredin yn y modd mae gwasanaethau cyhoeddus ehangach yn rhyngweithio â'r Trydydd Sector.

2.11. O fewn y cymhlethdod hwn mae'n bosibl nodi tri maes diddordeb pendant sy'n gorgyffwrdd, sy'n diffinio ac yn ffurfio diddordeb Llywodraeth Cymru yn y Trydydd Sector a'i chefnogaeth iddo:

- **Cymunedau cryfach** - sut mae pobl yn gwneud cyfraniad gwirfoddol at fywiogrwydd ac adfywiad eu cymunedau, yn darparu gofal ac yn helpu i feithrin hyder a sgiliau pobl; a'r cyfleoedd mae'r Trydydd Sector yn eu creu ar gyfer cyflogaeth a mentergarwch yn lleol
- **Gwell polisi** - yr wybodaeth a'r arbenigedd sydd gan y sector i'w cynnig drwy ei brofiad rheng flaen o helpu i ffurfio polisïau, gweithdrefnau a gwasanaethau
- **Gwell gwasanaethau cyhoeddus** - y rôl arloesol a gweddnewidiol y gall y Sector ei chwarae i helpu gwasanaethau cyhoeddus i gyrraedd mwy o bobl ac i fod yn fwy sensitif i'w hanghenion.

### Themâu trawsbynciol

2.12. Mae nifer o themâu trawsbynciol sy'n effeithio ar Lywodraeth Cymru a'r modd mae'n gweithredu ei swyddogaethau, ac mae'r Trydydd Sector wedi ymrwymo i hynny ac yn gwneud cyfraniad hollbwysig at hynny. Yn yr un modd bydd yr un themâu yn amlwg yn y ffordd mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu ei swyddogaethau o safbwynt y Trydydd Sector.

### *Datblygu Cynaliadwy*

2.13. Datblygu cynaliadwy yw'r broses sy'n ein helpu i wneud gwell penderfyniadau sy'n sicrhau ein bod yn gwella lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol tymor hir Cymru. Mae'n rhoi pwyslais nid yn unig ar genedlaethau heddiw ond ar genedlaethau'r dyfodol hefyd, ac ar yr etifeddiaeth yr hoffem ei gadael i'n plant a'n wyrion. Datblygu cynaliadwy yw un o brif egwyddorion trefniadol Llywodraeth Cymru. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod datblygu cynaliadwy hefyd yn ganolog mewn gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru, a'i fod yn gweddnewid sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud. Mae ein fersiwn Gymreig o ddatblygu cynaliadwy'n ymgorffori ein gwerthoedd o degwch, cyfiawnder cymdeithasol a pharch at ein hamgylchedd.

2.14. Mae'r Trydydd Sector wedi bod yn helpu i sefydlu datblygu cynaliadwy fel ffordd arferol o weithio yng Nghymru ers amser maith, gan gynnig cefnogaeth a chyfleoedd i bobl fynd ati'n ymarferol i sicrhau cymunedau cynaliadwy a chadarn. Dyma rai enghreifftiau; y nifer fawr o fentrau o dan berchnogaeth y gymuned sy'n cynhyrchu canlyniadau triphlyg fel prosiectau tyfu bwyd a bwyd dros ben; trafndiaeth gymunedol; rhaglenni arbed ynni ac ôl troed carbon; gwarchod natur a threftadaeth; a'r mentrau trosglwyddo asedau newydd i fudiadau Trydydd Sector yn ymwneud â thir, stoc tai neu ynni adnewyddadwy sy'n creu arian dros ben i'w fuddsoddi yn y gymuned. Mae nifer o'r prosiectau hyn wedi'u seilio ar yr ymwybyddiaeth nad oes modd cael cydlyniant cymunedol a ffyniant heb roi sylw i egwyddorion Datblygu Cynaliadwy a'r gwaith ymgysylltu a phartneriaeth sy'n gysylltiedig â hyn.

#### *Yr Iaith Gymraeg*

2.15. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y Gymraeg yn rhan anhepgor o hunaniaeth Cymru ac mae wedi ymrwymo i greu Cymru wirioneddol ddwyieithog, lle gall pobl fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg neu'r ddwy iaith. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cadarnhau statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru ac mae wedi arwain at sefydlu rôl Comisiynydd y Gymraeg. Prif swyddogaeth y Comisiynydd yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd y Comisiynydd hefyd yn monitro ac yn gorfodi cydymffurfiaeth â safonau i'r graddau maent yn berthnasol i gategorïau cyrff sy'n rhan o'r Trydydd Sector. Mae Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru - iaith fyw: iaith byw - a'i Chynllun Iaith Gymraeg, yn ceisio mynd ati i brif ffrydio'r iaith ymhellach ym mhob agwedd ar waith Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng nghymunedau Cymru.

2.16. Mae cyfraniad y Trydydd Sector yn hanfodol i oroesiad a thwf y Gymraeg fel iaith gymunedol gan ei fod yn creu cyfleoedd i bobl wirfoddoli, ac mae'n darparu gwasanaethau gwirfoddol yn Gymraeg, yn ogystal â dathlu'r iaith a'r traddodiadau sydd ynghlwm wrthi. Mae Llywodraeth Cymru yn credu dylid sicrhau cyfle cyfartal i ddefnyddwyr gwasanaeth ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn y Trydydd Sector; bod gwirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith ym mhob rhan o Gymru a bod y Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio ym mhob datblygiad polisi a dyraniad ariannu.

#### *Cydraddoldeb ac Amrywiaeth*

2.17. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r rheoliadau dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus sy'n benodol i Gymru yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau perthnasol yng Nghymru, gan gynnwys y gofyniad i gyhoeddi amcanion cydraddoldeb. Mae'n ofynnol bod awdurdodau'n cyhoeddi datganiad sy'n amlinellu'r camau a gymerwyd er mwyn cyflawni pob amcan cydraddoldeb ynghyd â monitro cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion hynny. Mae Llywodraeth Cymru am greu

cymdeithas deg heb wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth gyda chymunedau cydlynus a chynhwysol. Bydd ei Hamcanion Cydraddoldeb (sy'n dod o fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol) yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus a chyflogaeth yn deg, yn hygyrch ac yn ymatebol i anghenion pobl, a bod cymunedau'n gynhwysol. Ni ddylai pobl gael eu trin yn llai ffafriol oherwydd eu rhyw, hil, ffydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, beichiogrwydd a mamolaeth, bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil, bod yn berson anabl, neu'n drawsrywiol. Mae'r amcanion hyn yn sail i waith Llywodraeth Cymru, gan sicrhau dull cydlynus o gyflawni gwell canlyniadau i bobl Cymru.

- 2.18. Mae cyfraniad y Trydydd Sector yn allweddol er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, helpu pobl i herio triniaeth annheg, a helpu cyrff cyhoeddus i wella'r ffyrdd maent yn cyflawni eu dyletswyddau cydraddoldeb. Mae'n cynnig gwasanaethau eirioli a chyngor, gweithgareddau diwylliannol, cymorth arbenigol a chyfleoedd trefnu i grwpiau lleiafrifol a difreintiedig, sy'n helpu i ddatblygu cymdeithas fwy cynhwysol.

#### *Mynd i'r Afael â Thlodi*

- 2.19. Mae Llywodraeth Cymru am fynd i'r afael â thlodi drwy ei holl waith. Gyda'i gilydd, mae Gweinidogion Cymru yn benderfynol o edrych ar bob cyfle i atal ac i leihau tlodi yng Nghymru. Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi (2013) yn dangos y bydd adnoddau, ym mhob rhan o'r Llywodraeth, yn cael eu defnyddio i helpu'r rheini â'r angen mwyaf ac i geisio atal cenedlaethau'r dyfodol rhag profi tlodi. Mae nifer o raglenni sy'n ein galluogi i ymestyn i'r cymunedau y mae tlodi'n effeithio fwyaf arnynt, a chydlynu'r hyn rydym yn ei wneud ym mhob rhan o'r Llywodraeth i helpu'r bobl sy'n byw yno. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i helpu i wella cyrhaeddiad addysgol plant o deuluoedd ar incwm isel; i helpu mwy o bobl i gael gwaith, yn enwedig rhai ar aelwydydd lle nad oes neb mewn swydd gyflogedig; ac i leihau mewn ffordd ystyrllon nifer y bobl ifanc yng Nghymru nad ydynt yn ennill cyflog nac yn dysgu. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio i sicrhau bod pawb, ni waeth pa mor dlawd ydynt na pha mor ddifreintiedig yw'r ardal maent yn byw ynddi, yn cael mynediad cyfartal a theg at wasanaethau hanfodol. Credwn os gellir gwneud cynnydd yn y pedwar maes allweddol hwn, yna gall yr effaith weddnewid bywydau llawer o bobl ym mhob rhan o Gymru.
- 2.20. Mae'r Trydydd Sector yn cyfrannu'n sylweddol at y gwaith o fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau tlodi drwy helpu pobl i fanteisio'n llawn ar fudd-daliadau a rheoli arian a dyledion, drwy gynghori ynghylch tai a chyflogaeth, drwy gynlluniau cyflogaeth a hyfforddiant, drwy fanciau bwyd a drwy wasanaethau cymunedol eraill. Er enghraifft, mae darparwyr cyngor annibynnol yn dal i gynnig cyngor annibynnol i filoedd o bobl ledled Cymru er mwyn lleihau effaith diwygio lles drwy sicrhau bod pobl yn hawlio budd-daliadau, bod unigolion a theuluoedd

yn cael yr incwm mwyaf sydd ar gael iddynt, yn osgoi digartrefedd a'u helpu i reoli eu harian ac ymdopi â'u dyledion.

## **Pennod 3. Cynnal trefniadau ar gyfer ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector**

- 3.1. Yng Nghymru mae Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector wedi mwynhau hanes hir o ymgysylltu uniongyrchol, sy'n cael ei gynnal drwy'r Cynllun hwn. Mae hyn yn unigryw i Gymru. Mae'r ymgysylltiad strategol tymor hir hwn â'r Trydydd Sector yn parhau'n bwysig i lywio datblygiad polisi ac i helpu i ffurfio gwasanaethau i ddiwallu anghenion pobl yng Nghymru.
- 3.2. Felly, mae'n bwysig cael cysylltiadau gwaith cadarnhaol â'r Sector, a chael cynrychiolaeth effeithiol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.
- 3.3. Mae'r paragraffau canlynol yn nodi'r trefniadau ffurfiol ar gyfer ymgysylltu o dan y Cynllun hwn. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu hategu gan Fframwaith Ymgysylltu y mae'r ddwy ochr wedi cytuno arno.
- 3.4. Bydd y Fframwaith:
  - yn cysylltu ag aelodau Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, a rhoi perchnogaeth iddynt dros olrhain a phenderfynu ar brosesau a datblygiad
  - yn helpu aelodau Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector gyda'u gwaith i ymgysylltu â'r sector ehangach
  - yn creu proses sy'n cynhyrchu agendâu a chanlyniadau cyffredin
  - yn cefnogi cyfarfodydd Gweinidogion mwy penodol
  - yn sicrhau canlyniadau cliriach ar gyfer cyfarfodydd Gweinidogion a Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector
  - yn ychwanegu gwerth at gyfraniad y llywodraeth a'r Trydydd Sector
  - yn cynnal diddordeb ac ymrwymiad y Trydydd Sector a Gweinidogion
  - yn helpu Gweinidogion a'r Trydydd Sector i gyflawni eu hamcanion
  - yn cynnig adnoddau ychwanegol.

### Dialog a chydweithredu

- 3.5. Bydd Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), yn canfod y rhwydweithiau trydydd sector a'r cyrff ymbarél perthnasol sydd â diddordeb yn eu gwaith, ac yn cytuno ar drefniadau ymarferol ar gyfer deialog a chydweithredu ar lefel weithredol. Ochr yn ochr â hyn, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i fudiadau Trydydd Sector gydweithio â'i gilydd a ffurfio rhwydweithiau priodol a all uniaethu gyda'i gilydd â Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n gyffredin iddynt o ran polisi a gweinyddu. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cwrdd â chynrychiolwyr rhwydweithiau Trydydd Sector yn

rheolaidd i'r diben hwn, ac mae'n cydnabod pwysigrwydd dialog ac ymgysylltu rheolaidd â swyddogion a Gweinidogion.

- 3.6. Bydd y trefniadau hyn yn cynnwys y canlynol:
- cyfnewid gwybodaeth a safbwyntiau ar ddatblygiadau ym mholisiau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru;
  - dulliau a fydd yn galluogi pob rhan o'r Trydydd Sector i ymgysylltu ac i gyfrannu at waith Llywodraeth Cymru;
  - rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ddatblygiadau a phryderon a nodir gan y Trydydd Sector drwy ei waith;
  - cyfranogi mewn gweithgorau i ddatblygu polisiau a strategaethau newydd;
  - trefniadau ymgynghori ar bolisiau neu raglenni strategol newydd;
  - cytuno ar y paramedrau ar gyfer cydweithio i redeg rhaglenni o'r fath, a;
  - ymdrin â threfniadau gweinyddol ar gyfer rhaglenni ariannu.

### Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector

- 3.7. Wrth fynd ati i gyflawni ei fwriad i gydweithredu ac i weithio'n effeithiol gyda'r Trydydd Sector, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector fel ei phrif gyfrwng i ymgysylltu â'r Trydydd Sector.
- 3.8. Bydd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn hwyluso'r broses o ethol cynrychiolwyr y Trydydd Sector ac yn sicrhau eu bod adlewyrchu croestoriad o fuddiannau a gweithgarwch y Trydydd Sector cyn belled ag y bo modd. Gall Llywodraeth Cymru wahodd cynrychiolwyr o sectorau eraill i gyfarfodydd. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion Cyngor Gweithredol Gwirfoddol Cymru yn cefnogi Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Bydd y Cyngor yn cael ei gadeirio gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am Gynllun y Trydydd Sector.
- 3.9. Bydd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn:
- edrych ar faterion yn ymwneud ag amcanion strategol a swyddogaethau Llywodraeth Cymru ac sy'n gysylltiedig â buddiannau'r Trydydd Sector, ac yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru;
  - cytuno ar y Fframwaith Ymgysylltu, ac yn ei fonitro a'i adolygu
  - rhoi cyngor ar weithredu, monitro ac adolygu Cynllun y Trydydd Sector gan gynnwys llunio dangosyddion a ddefnyddir i werthuso'r Cynllun;
  - hwyluso ymgynghori â mudiadau Trydydd Sector a chyrff Sector Cyhoeddus perthnasol ar weithredu, rhedeg ac adolygu'r Cynllun;
  - helpu gyda'r trefniadau i adolygu'r Cynllun o bryd i'w gilydd.

- 3.10. Bydd Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yn cytuno ar gyfansoddiad a threfniadau gwaith Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector.

#### Cyfarfodydd Gweinidogion

- 3.11. Mae Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r Trydydd Sector yn aml iawn mewn amryw o ffyrdd. Dyma rai enghreifftiau: cyfarfodydd ar faterion penodol; ymweliadau â mudiadau a chymunedau; presenoldeb mewn digwyddiadau a chynadleddau; a drwy ohebiaeth. Mae'r ffaith bod y Trydydd Sector yn gallu cwrdd â Gweinidogion i drafod materion sy'n achos pryder iddynt yn cael ei gydnabod, ac mae'n rhan allweddol o'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector.
- 3.12. O dan nawdd y Cynllun hwn, bydd y gwaith ymgysylltu arferol hwn yn cael ei ategu gan gyfarfodydd Gweinidogion sy'n canolbwyntio mwy ar faterion pwysig sy'n effeithio ar fwy nag un o fudiadau'r Trydydd Sector ac sy'n haeddu sylw gan y Gweinidog.
- 3.13. Ni fydd y cyfarfodydd hyn yn ceisio rhoi sylw i holl faterion portffolio'r Gweinidog ar unwaith, ond bydd pob cyfarfod:
- fel arfer yn ymdrin â'r canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector wedi eu nodi fel blaenoriaethau, ac i waith Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector;
  - yn canolbwyntio ar un neu ychydig o faterion strategol cysylltiedig sy'n ymwneud â'r canlyniadau hynny ac â nifer sylweddol o fudiadau Trydydd Sector;
  - yn canolbwyntio ar weithredu o fewn terfynau amser i gynyddu'r tebygolrwydd o wneud cynnydd ar y materion o dan sylw.
- 3.14. Bydd y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd Gweinidogion wedi'u nodi yn y Fframwaith Ymgysylltu, a fydd wedi cael sêl bendith Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector.
- 3.15. Bydd Tîm Trydydd Sector Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn adolygu patrwm yr holl gyfarfodydd Gweinidogion, ac yn adrodd ar hyn i Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ac i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy adroddiad blynyddol Cynllun y Trydydd Sector.

#### Cysylltiad y Trydydd Sector â datblygu polisiâu

- 3.16. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei bod yn ystyried, yn y camau cynnar, beth fydd goblygiadau polisiâu newydd neu newid mewn polisi i'r Trydydd Sector. Bydd y Trydydd Sector yn deall bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ystyried pob math o safbwyntiau a chyfraniadau cyn gwneud penderfyniadau terfynol wrth lunio polisi.
- 3.17. I'r graddau y mae hynny'n bosibl bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio osgoi neu liniaru unrhyw effaith annymunol ar y Trydydd Sector a chanfod ac annog cyfleoedd i fudiadau Trydydd Sector gael eu hysbysu a chymryd rhan mewn trafodaethau mor gynnar â phosibl a

chyn unrhyw ymgynghoriad ffurfiol os yw hynny'n bosibl. Mae buddiannau amrywiol mudiadau Trydydd Sector yn golygu nad yw'n bosibl manylu ar bob maes polisi a all fod yn bwysig i'r Trydydd Sector; fodd bynnag, bydd canllaw manwl yn cael ei ddatblygu a'i gyhoeddi ar wahân i helpu i asesu effaith bosibl polisiâu ar y Trydydd Sector. Ni fydd unrhyw ganllaw o'r fath yn rhan o'r Cynllun hwn.

- 3.18. Gall cyfarwydddebau a deddfwriaeth arfaethedig sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd effeithio ar y Trydydd Sector, yn ogystal â deddfwriaeth a pholisi domestig. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymdrechu i sicrhau bod yr un sylw'n cael ei roi i ddatblygiadau polisi yn y meysydd hyn.
- 3.19. Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu ac yn cynnal grŵp cyswllt mewnol a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob adran o Lywodraeth Cymru sydd mewn cysylltiad â'r Sector, i gyfnewid gwybodaeth ac i sicrhau bod egwyddorion ac ymrwymadau'r Cynllun yn cael eu cynnal.

### Ymgynghori

- 3.20. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i bennu gweithdrefnau cytunedig i ymgynghori ar newidiadau mewn polisi a datblygiadau polisi newydd sy'n effeithio ar y Trydydd Sector, gan gynnwys:
  - cyfleoedd i barhau â thrafodaethau rhwng y Trydydd Sector, buddiannau gwirfoddoli a Llywodraeth Cymru i feithrin dealltwriaeth gynnar, a'u cynnwys mewn datblygiadau polisi;
  - trefniadau ymgynghori a fydd fel arfer yn caniatáu digon o amser i ymgynghori'n ehangach â rhwydweithiau a defnyddwyr gwasanaeth;
  - cefnogi rôl cyrff ymbarél a chyrrff cyfryngol i hwyluso ymgynghoriadau;
  - adborth i ymatebwyr ar ymatebion a chanlyniadau'r ymgynghoriad;
  - cyfleoedd i'r sector barhau i gael ei gynnwys yng nghamau gweithredu a gwerthuso'r polisi.
- 3.21. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr ymrwymadau hyn yn cael eu cynnwys yn llawn mewn canllaw i staff a ddilynir wrth ymgymryd ag ymarferion ymgynghori. Bydd y gweithdrefnau hyn yn cael eu nodi yn y canllawiau a roddir i swyddogion Llywodraeth Cymru, a byddant yn destun ymgynghoriad cyfnodol gyda'r Trydydd Sector.



## **Pennod 4. Cynnal Cymunedau a Gwirfoddolwyr**

- 4.1. Mae'r Trydydd Sector yn cynnwys miloedd o fudiadau a grwpiau sy'n cynrychioli ac yn cefnogi cymunedau lle a chymunedau buddiant. Fel y nodwyd eisoes yn y Cynllun hwn, mae dadl gref dros edrych ar y rhain gyda'i gilydd fel Trydydd Sector unigryw. Er hynny, rhaid i ni gydnabod hefyd amrywiaeth y Sector, a rôl allweddol grwpiau cymunedol bach o dan arweiniad gwirfoddolwyr ynddo. Mae'n bwysig bod y berthynas hon rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yn ystyried yr amrywiaeth hon, ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cryfhau mudiadau llawr gwlad sy'n canolbwyntio ar weithredu ar lefel leol ac ar raddfa fach.
- 4.2. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi pwyslais ar y gweithredu dyngarol a chymdeithasol sy'n digwydd ar lefel gymunedol ac sy'n cyfrannu at gymdeithas sifil gyfoethog ac yn gwella ansawdd bywyd pobl yng Nghymru. Mae'r gweithredu cymunedol lleol hwn yn dangos y pwys a roddir ar ymateb i brofiadau ac anghenion o ddydd i ddydd. Ar y lefel gymdogaethol leol neu deuluol hon y mae mudiadau Trydydd Sector yn aml yn gallu gwneud y gwahaniaeth mwyaf. Ei hygyrchedd a'i allu i ymateb yw un o rinweddau mwyaf y sector.
- 4.3. Gyda hyn mewn cof, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod datblygu cymunedol fel 'pobl yn gweithio gyda'i gilydd ar faterion sy'n dod i'r amlwg, er mwyn creu newid drwy gydweithredu'. Mae hon yn broses, sy'n troi'n weithredoedd i wella lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cymunedau, sy'n ateb anghenion a dyheadau'r cymunedau hynny drwy gydymdrechion y gymuned a'r mudiadau sy'n ei gwasanaethu.
- 4.4. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod angen harneisio'r cryfder sydd gan gymunedau a'u partneriaid i ganfod atebion ar y cyd i broblemau sy'n gyffredin iddynt. Mae hyn yn rhan ganolog o gydgyhyrchu. Gan amlaf, bydd mwy nag un peth yn achosi'r problemau sy'n wynebu ein cymunedau, a byddant yn effeithio ar fwy nag un rhan o fywydau pobl. Cydnabyddir mai'r cymunedau eu hunain sydd yn y sefyllfa orau yn aml i weld problemau gyda gwasanaethau presennol neu fylchau mewn gwasanaethau. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ymdrechion i ganfod atebion ar y cyd, gyda phobl a chymunedau'n gweithio gyda darparwyr gwasanaethau i ddylunio, darparu, monitro a gwerthuso'r gwasanaethau (enw cyffredin ar hyn yw cyd-gynhyrchu).

### Hybu Ymgysylltu Cymunedol

- 4.5. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd, set o ddeg egwyddor sydd â'r nod o hybu dull effeithiol a chyson o Ymgysylltu â'r Cyhoedd ledled Cymru.

- 4.6. Amlinellir yr egwyddorion lefel uchel isod, ond am fwy o fanylion, gweler: <http://www.participationcymru.org.uk/national-principles?seq.lang=cy-GB>

### ***Yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru***

1. Cynllunnir yr ymgysylltu'n effeithiol i wneud gwahaniaeth.
  2. Annog a galluogi pawb yr effeithir arnynt i gymryd rhan, os ydynt yn dewis hynny.
  3. Cynllunnir a chyflwynir yr ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol.
  4. Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol.
  5. Ni fydd unrhyw jargon yn rhan o'r wybodaeth a ddarperir a bydd yn briodol ac yn hawdd ei deall.
  6. Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan.
  7. Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol.
  8. Rhoddir yr adnoddau a'r gefnogaeth briodol i ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol.
  9. Mae pobl yn cael gwybod beth yw effaith eu cyfraniad.
  10. Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses o ymgysylltu.
- 4.7. Mae'r egwyddorion hyn yn ategu Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cymru.

### **Cynnal Gwirfoddoli**

- 4.8. Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi gwirfoddoli fel elfen bwysig o fynegi dinasyddiaeth ac fel elfen hanfodol o ddemocratiaeth. Mae'n golygu neilltuo amser ac egni er budd cymdeithas a'r gymuned, a gall ddiwydd mewn sawl ffordd. Mae'n cael ei wneud o wirfodd a drwy ddewis, heb ddisgwyl enillion ariannol.
- 4.9. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal Polisi Gwirfoddoli [a gyhoeddir ar wahân a heb fod yn rhan o'r Cynllun hwn]. Bydd y Polisi hwn yn cael ei ddatblygu ar y cyd â'r Sector drwy Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, a bydd yn:
- ymdrechu i wella mynediad at wirfoddoli i bobl o bob sector o gymdeithas;
  - cefnogi ymdrechion i sicrhau nad oes rhwystrau diangen yn atal pobl rhag gwirfoddoli;
  - ei gwneud yn haws i bobl wirfoddoli;
  - annog cyfraniadau mwy effeithiol gan wirfoddolwyr;
  - codi statws a gwella delwedd gwirfoddoli.

## **Pennod 5. Cynnal strwythurau sy'n galluogi'r Trydydd Sector i ffynnu**

- 5.1. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad tymor hir i ddatblygu'r Trydydd Sector yng Nghymru. Mae'n cydnabod yr angen i gynorthwyo mudiadau cymunedol a llawr gwlad i dyfu a datblygu ac y bydd hynny, yn ei dro, yn helpu i sicrhau cymdeithas deg, gyfiawn a chynhwysol lle gall cymunedau feithrin gallu unigolion i fynd i'r afael â thlodi, sgiliau, diweithdra a chynaliadwyedd.
- 5.2. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen cymorth ar y mudiadau hyn, ac mae'n ymroi i gynnal seilwaith cydlynus. Mae'r cymorth hwn ar gael drwy strwythur cymorth integredig sy'n cael ei alw'n 'Seilwaith y Trydydd Sector' sydd ar hyn o bryd yn cynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), y Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS) a Chanolfannau Gwirfoddolwyr (CG). Gan edrych i'r dyfodol, disgwylir y bydd y Seilwaith yn datblygu'n unol â modelau newydd gwasanaethau cyhoeddus a strwythurau i gynnal trefniadau gweithio cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, gan gadw mewn cof yr egwyddorion hynny a amlinellwyd ym Mhennod 4 y Cynllun hwn.
- 5.3. Mae'r seilwaith hwn yn ymestyn ar draws Cymru gyfan ac mae'n cael ei gydnabod yn gyffredinol, yng Nghymru a thu hwnt, fel un o gryfderau'r Trydydd Sector yng Nghymru, gan roi set gytunedig o wasanaethau craidd sy'n hygyrch i lawer iawn o bobl a mudiadau ledled y wlad. Mae cyrff y seilwaith mewn cysylltiad rheolaidd nid yn unig â'u haelodau eu hunain, ond hefyd â llawer o grwpiau eraill yn y sector drwy eu gwasanaethau a'u rhwydweithiau. Drwy gyfrwng y rhain, maent yn ymestyn allan i bob cymuned a miloedd lawer o unigolion. Un o nodweddion hanfodol y seilwaith yw ei aelodaeth ac atebolrwydd i'r sector. Mae gan fudiadau'r seilwaith aelodaeth eang a chynhwysol, maent yn agored i unrhyw fath o fudiad trydydd sector; a chydag ymddiriedolwyr a etholwyd gan eu haelodau. Mae hyn yn sicrhau bod eu gwasanaethau a'u gweithgareddau yn atebol i'r Sector ac yn adlewyrchu anghenion y Sector.
- 5.4. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai rôl y Seilwaith hwn yw:
  - Galluogi mudiadau Trydydd Sector eraill i dyfu a datblygu;
  - Cynorthwyo gwirfoddolwyr unigol a gweithredu gwirfoddol ar y cyd;
  - Hyrwyddo llywodraethu da a diogel ar draws y Trydydd Sector;
  - Cynorthwyo i ddylunio a chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus;
  - Rhoi llais a chynrychiolaeth i'r sector ehangach; a
  - Rhannu arferion da ac arloesedd.
- 5.5. Mae'r dull cyffredinol o gynnal trefniadau gweithio lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn cynnwys ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gefnogi WCVA, y corff seilwaith cenedlaethol sy'n cynrychioli ystod o

leisiau yn y Trydydd Sector. Mae rôl y WCVA yn cynnwys gweithio gyda Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a darparu gwasanaethau priodol ar lefel genedlaethol, er enghraifft ymgysylltu a chynrychioli; darparu adnoddau ar-lein ac adnoddau gwybodaeth eraill ar gyfer y sector; rheoli'r gronfa ddata genedlaethol o wirfoddolwyr ac adnoddau ar gyfer mudiadau sy'n ymwneud â gwirfoddolwyr; ymchwil; hyfforddiant; cefnogaeth ar gyfer llywodraethu ac ymddiriedolwyr; ac ymwneud â'r gwaith o reoli grant y Seilwaith a chynlluniau cyllid eraill.

- 5.6. Yn ogystal â'r cyrff seilwaith sy'n rhan o'r seilwaith cyffredinol, mae cyrff ymbarél trydydd sector eraill yn cefnogi rhannau penodol o'r sector ac sydd ag arbenigedd polisi arbenigol mewn maes penodol ac sy'n cynorthwyo'r sector mewn gwahanol ffyrdd. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhai o'r rhain. Yn yr achosion hynny, disgwylir i gefnogaeth o'r fath ategu gwasanaethau craidd y cyrff Seilwaith a hwyluso'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth.
- 5.7. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo'r Trydydd Sector hefyd drwy ei Thîm Trydydd Sector, a fydd yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Trydydd Sector yng Nghymru ac a fydd yn:
- gweithio ar draws adrannau i rannu gwybodaeth ag adrannau eraill Llywodraeth Cymru, gan roi sylw arbennig i'r polisiâu a'r blaenoriaethau hynny sy'n ymwneud â'r Trydydd Sector;
  - cynnal cysylltiadau rhwng y llywodraeth i gadw mewn cysylltiad â materion ehangach sy'n ymwneud â'r Trydydd Sector;
  - rhoi cymorth a monitro sut mae'r strwythurau ymgysylltu a amlinellir yn y Cynllun hwn yn gweithio ac yn cydlynu'r gwaith o baratoi'r Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun.

#### Trefniadau adolygu ac adrodd

- 5.8. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan mai'r Prif Weinidog sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros Gynllun y Trydydd Sector, a bydd gan un o Weinidogion Cymru gyfrifoldeb penodol dros fuddiannau'r Trydydd Sector.
- 5.9. Mewn ymgynghoriad â'r Trydydd Sector, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cynnal mecanweithiau i fonitro perfformiad y Cynllun yn effeithiol.
- 5.10. Bydd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn ystyried ac yn gwneud argymhellion ar y mesurau sydd eu hangen i wella perfformiad Llywodraeth Cymru, ei hasiantaethau a'i chyrrff nodedig a'r trydydd sector. Bydd enghreifftiau o arferion da'n cael eu hyrwyddo.
- 5.11. Bydd y modd y mae'r Cynllun yn cael ei weithredu a'r effaith mae'n ei chael yn cael eu hasesu'n flynyddol, a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

- 5.12. Bydd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn ceisio datrys unrhyw anghydfodau rhwng y Trydydd Sector a Llywodraeth Cymru. Bydd cwynion yn cael eu cyfeirio at weithdrefnau cwyno Llywodraeth Cymru.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

Atodiad i Gynllun y Trydydd Sector

# Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector

Ionawr 2014

## Cyflwyniad

Mae Adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn creu cynllun sy'n amlinellu sut maent yn bwriadu hybu buddiannau'r Sector Gwirfoddol, a sut mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu rhoi cymorth i fudiadau gwirfoddol perthnasol. Gelwir hwn yn Gynllun y Trydydd Sector (cyfeirir ato fel 'cynllun y sector gwirfoddol' yn Neddf 2006).

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector yn amlinellu'r prif egwyddorion a fydd yn sail i'r arian a roddir gan Lywodraeth Cymru i'r Trydydd Sector, a beth mae'r Llywodraeth yn disgwyl ei gael yn ôl gan y Trydydd Sector.

Mae'r Cod Ymarfer yn rhan o'r Cynllun sy'n ofynnol yn ôl adran 74 o Ddeddf 2006.

Rhaid i bob un o Adrannau Llywodraeth Cymru gydymffurfio â'r Cod hwn. Bydd yn rhaid i Gyrrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru gydymffurfio drwy eu cytundebau ariannu. Rhaid i bob corff cyhoeddus arall (gan gynnwys cyrrff y GIG ac awdurdodau lleol) gydymffurfio â'r Cod mewn achosion lle mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu cyllid wedi'i neilltuo iddynt. Disgwylir hefyd y bydd awdurdodau lleol Cymru, a byrddau iechyd lleol pan fo'n berthnasol, yn cydymffurfio â'r egwyddorion hyn (fel y dangoswyd uchod) ar ffurf Compactau Trydydd Sector lleol.

Bydd holl arian Llywodraeth Cymru i'r Trydydd Sector yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Llywodraeth a blaenoriaethau Gweinidogion fel yr amlinellwyd hwy yn Rhaglen Llywodraeth Cymru. Bydd penderfyniadau ariannu a wneir dros amser yn adlewyrchu'r newid mewn cyd-destun a blaenoriaethau, a bydd unrhyw gyfeiriad polisi sy'n newid, sy'n newydd neu sy'n dod i'r amlwg yn cael ei rannu â'r Trydydd Sector drwy ddeialog barhaus.

Yn dilyn yr adran ragarweiniol hon, mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu ei dealltwriaeth o'r amrywiaeth o fudiadau sy'n ffurfio'r Trydydd Sector (gweler tudalen 3).

Ceir, felly, tair rhan wahanol i'r Cod Ymarfer hwn:

1. Mae'r rhan gyntaf yn amlinellu 17 o **Egwyddorion** sy'n sail i Gyllid Llywodraeth Cymru i'r Trydydd Sector. Mae'r adran hon yn cynnwys datganiad o fwriad Llywodraeth Cymru ei hun yn ogystal â'r hyn a ddisgwylir yn ôl gan y Trydydd Sector (tudalennau 26-36);
2. Mae ail ran y ddogfen yn canolbwyntio ar **ariannu a chomisiynu**, (tudalennau 37-45) ac mae'n rhoi manylion am y dulliau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i ariannu'r Trydydd Sector. Mae'r adran hon hefyd yn edrych ar rai o'r gwahaniaethau rhwng grantiau a chaffael ac mae'n rhoi gwybodaeth am rôl Canolfan Ragonaeth Grantiau Llywodraeth Cymru a'i His-adran Gwerth Cymru;

3. Mae rhan olaf y cod yn cynnwys nifer o **atodiadau** sy'n cynnwys gwybodaeth bellach am elfennau allweddol grantiau a chontractau, cysylltiadau pellach â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, rhestr o gyrff a ddylai gydymffurfio â'r Cod (fel y nodwyd uchod), trothwyon caffael Llywodraeth Cymru a rhestr o gysylltiadau a dolenni defnyddiol (tudalennau 46-52).

### **Diffinio'r Trydydd Sector**

Nid yw'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector yn ceisio ailddiffinio'r term Trydydd Sector, ac un rheswm am hynny yw am nad yw'r term ei hun yn un hawdd i'w ddisgrifio na'i ddiffinio.

Mae Adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn diffinio 'relevant voluntary organisations' fel:

- "...bodies (other than local authorities or other public bodies) whose activities -
- are carried on otherwise than for profit, and
  - directly or indirectly benefit the whole or any part of Wales (whether or not they also benefit any other area)

Defnyddir 'y Trydydd Sector' fel disgrifiad cynhwysol ac eang iawn o ystod eang iawn o fudiadau sy'n rhannu set o werthoedd a nodweddion.

Cydnabyddir yn gyffredinol bod mudiadau Trydydd Sector:

- Yn gyrff annibynnol, anllywodraethol;
- Wedi eu sefydlu'n wirfoddol gan bobl sy'n dewis trefnu eu hunain;
- Yn cael eu 'gyrru gan werth' a'u cymell gan amcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol, yn hytrach na gwneud elw'n unig;
- Wedi ymrwymo i ail-fuddsoddi eu gweddill ariannol i hybu eu nodau cymdeithasol er budd pobl a chymunedau yng Nghymru.

Hyd yn oed gyda'r ymagwedd hon sy'n seiliedig ar werthoedd cyffredin, mae ystod eang o fudiadau sy'n rhan o'r Trydydd Sector, gan gynnwys cymdeithasau cymunedol, grwpiau hunangymorth, mudiadau gwirfoddol, elusennau, mudiadau ffydd, mentrau cymdeithasol, busnesau cymunedol, cymdeithasau tai, ymddiriedolaethau datblygu, mudiadau cydweithredol a chydfuddiannol.

Mae Almanac Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2013 yn dangos bod y Trydydd Sector yng Nghymru yn cynnwys:

- 33,000 o fudiadau
- 230,000 o ymddiriedolwyr
- 1.13m o wirfoddolwyr a phobl sy'n helpu yn eu cymuned
- 51,000 o gyflogeion



Mae ymchwil WCVA yn dangos bod incwm y Trydydd Sector yn y flwyddyn honno yn £1.6 biliwn a'i fod yn cael ei ategu gan 2.4% o gyllideb Llywodraeth Cymru.<sup>2</sup>

Mae strwythurau, ffurfiau a hunaniaeth gyfreithiol mudiadau Trydydd Sector hefyd yn amrywio'n sylweddol. Maent yn cynnwys mudiadau anghorfforedig, elusennau cofrestredig ac anghofrestredig, cwmnïau cyfyngedig drwy warant (a all fod yn elusennau cofrestredig hefyd), a chwmnïau buddiannau cymunedol, mudiadau elusennol corfforedig a Chymdeithasau Diwydiannol a Darbodus.

Er bod mudiadau unigol yn galw eu hunain yn fudiadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol neu fentrau cymdeithasol, mae'r gwahaniaeth rhwng categorïau o'r fath yn aml yn amwys ac mae dadl gref o hyd dros edrych arnynt gyda'i gilydd fel Trydydd Sector sy'n gwneud cyfraniad hynod o bwysig at fywyd Cymru.

---

<sup>2</sup> Adnodd Ystadegol y Trydydd Sector 2013  
<http://www.wcva.org.uk/what-we-do/research/research-publications>

## **RHAN UN: EGWYDDORION ARIANNU LLYWODRAETH CYMRU**

Mae'r bennod hon o'r Cod yn amlinellu'r egwyddorion sy'n sail i arian Llywodraeth Cymru i'r Trydydd Sector.

### **I. Cyflwyno amcanion polisi strategol**

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd yr arian yn helpu i gyflawni ei hamcanion polisi strategol. Bydd angen ymgysylltu'n barhaus â'r Trydydd Sector i sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r amcanion hyn, wrth iddynt ddatblygu dros amser, a bydd yn sail i'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ariannu a rôl y Trydydd Sector i gyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt.

Bydd rôl y Trydydd Sector, anghenion y llywodraeth ac anghenion cymdeithasol, yn cael eu hystyried fel rhan o'r ymgysylltu hwn. Mae'n debygol y bydd y ddwy ochr yn cytuno ar nifer o amcanion polisi, ond amcanion polisi Llywodraeth Cymru fydd sail pob penderfyniad ar ariannu. Rhaid ystyried materion yn ofalus fel rhan o brosesau datblygu polisi, wedi'u hategu gan ddeialog, i feithrin dealltwriaeth bellach o sut gallwn weithio gyda'n gilydd a'r hyn y gallwn ei gyflawni.

Mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl y bydd mudiadau Trydydd Sector sy'n cyflwyno ceisiadau ariannu wedi ystyried y blaenoriaethau a amlinellwyd gan y Llywodraeth yn ei dogfennau polisi strategol.

Wrth weithredu egwyddorion y Cod hwn ar lefel leol a rhanbarthol, er enghraifft arian grant gan awdurdodau lleol i'r Trydydd Sector, mae'n bosibl y bydd angen ystyried canlyniadau a blaenoriaethau lleol sy'n cyfrannu at flaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru.

### **II. Parch at annibyniaeth y sector**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod mudiadau Trydydd Sector yn gyffwrdd annibynnol, anllywodraethol a sefydlwyd yn wirfoddol gan bobl sy'n dewis trefnu eu hunain. Maent yn cael eu gyrru gan werth, wedi'u cymell gan amcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol ac maent wedi ymrwymo i ail-fuddsoddi eu gweddill ariannol i hybu eu nodau cymdeithasol er budd pobl a chymunedau yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn parchu annibyniaeth y sector.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod bod gan rai mudiadau Trydydd Sector amrywiaeth o rolau gan gynnwys, er enghraifft, darparu cyngor i'w haelodau a chynorthwyo i ddatblygu polisïau, yn ogystal â darparu gwasanaethau ar ran Llywodraeth Cymru neu gyllidwyr eraill. Mae'r Trydydd Sector yn gallu codi arian drwy lwybrau anstatudol, ac yn cynnig gwasanaethau sy'n ychwanegol at wasanaethau a ariennir yn statudol neu'n eu hategu.

Bydd cydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yn hybu perthynas sy'n seiliedig ar fanteision i'r ddwy ochr, sy'n cydnabod yr awydd i

gyflawni'r un canlyniadau i bobl a chymunedau yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys parch tuag at ffordd y naill a'r llall o weithio, rhannu gwybodaeth a pharodrwydd i gydweithredu i gyflawni'r canlyniadau sy'n gyffredin i'r ddwy ochr.

Mae angen cysylltiadau ariannu ffurfiol i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddsbarthu'n effeithiol ac fel y bydd canlyniadau y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflawni. Ar yr un pryd, mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae'r Trydydd Sector annibynnol yn ei wneud at ddatblygiad polisi, ac mae'n bwysig bod y berthynas hon yn parhau ac nad yw'n cael ei thanseilio gan unrhyw gytundeb ariannu.

Disgwylir i fudiadau Trydydd Sector sy'n cael arian cyhoeddus ddangos yn eglur yr holl rolau maent yn ymgymryd â hwy a chyfrannu'n adeiladol at bob agwedd ar y berthynas â Llywodraeth Cymru gan gynnwys cynnal cytundebau ariannu.

### III. Deialog gynnar ac adeiladol

Mae'r egwyddor hon yn cydnabod bod trafodaethau cynnar rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yn fuddiol i gynnal ymagwedd strategol tuag at gyflawni amcanion allweddol ac yn caniatáu ar gyfer cynllunio gwasanaethau'n well.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio creu cyfleoedd i drafod cynigion mewn da bryd cyn unrhyw ddyddiadau cau ffurfiol ar gyfer gwneud ceisiadau ac yn gynnar yng nghylch cynllunio'r gyllideb. Rhaid rhoi esboniad o'r amgylchiadau pan na fydd hyn yn digwydd

Disgwylir y bydd y Trydydd Sector, yn gyfnewid am hyn, yn cymryd rhan adeiladol yn y ddeialog hon ac yn parchu'r cyfyngiadau a osodir ar y ddeialog gan yr angen i sicrhau tegwch a thryloywder o ran penderfyniadau cyllido cystadleuol.

### IV. Penderfyniadau amserol

Mae'r egwyddor hon yn golygu sicrhau bod mudiadau Trydydd Sector yn cael rhybudd am eu cyllid mewn ffordd amserol i'w helpu i sicrhau dilyniant a chynaliadwyedd gwasanaethau.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall penderfyniadau cynnar ar faterion ariannol helpu i gynllunio busnes a gweithluoedd yn well. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod hefyd yr effaith y gall ansicrwydd ynglŷn â dyfodol ariannol ei chael ar wasanaethau, ar y bobl sy'n cael y gwasanaethau hynny ac ar forâl y staff. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol hefyd o ofnyion statudol ynglŷn â gweithdrefnau diswyddo ac mae'n dymuno osgoi'r sefyllfaoedd anodd hyn.

Ymrwymiad Llywodraeth Cymru, fel gofyniad ar gyfer pob grant, yw rhoi gwybod am benderfyniadau am ddyfodol cyllid o leiaf dri mis cyn bod unrhyw

gytundeb ariannu presennol yn dod i ben. Er enghraifft, yn achos grant sy'n para blwyddyn ariannol (mis Ebrill i fis Mawrth), rhaid rhoi gwybod am yr hyn fydd yn digwydd nesaf erbyn 31 Rhagfyr cyn dechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol. Disgwylir cydymffurfiaeth lawn a rhaid egluro unrhyw eithriadau. Os oes cynnig wedi'i wneud mewn egwyddor, rhaid cadarnhau hwn hefyd dri mis cyn diwedd y cyfnod ariannu presennol.

Bydd Uned Trydydd Sector Llywodraeth Cymru a'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn monitro grantiau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r egwyddor hon yn benodol, a bydd yn paratoi adroddiadau i Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Disgwylir hefyd y bydd mudiadau Trydydd Sector yn hysbysu'r Is-bwyllgor os na chedwir at yr ymrwymiad hwn.

#### V. Sicrwydd Cyllid

Mae'r egwyddor hon yn cydnabod bod sicrwydd cyllid yn rhywbeth sydd ei angen ar bob sector, ar adeg pan fo adnoddau'n lleihau a'r galw am wasanaethau'n cynyddu.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cyllid tymor byr, weithiau, yn gallu costio mwy i'w weinyddu ac y dylid gwneud ymrwymadau cyllido mwy hirdymor pan fydd hynny'n bosibl ac yn briodol, gan y bydd hynny'n helpu i leihau costau gweinyddol.

Gall deialog barhaus helpu i leihau ansicrwydd ac unrhyw darfu ar wasanaethau a all ddeillio o hynny. Os gwneir ymrwymiad strategol hirdymor mewn egwyddor, rhaid cadarnhau hyn hefyd o leiaf dri mis cyn y dyddiad pan fydd y cyllid presennol yn dod i ben.

#### VI. Lefelau cyllid teg

Dylai cynnydd yn lefelau cyllido Llywodraeth Cymru, o ganlyniad i gostau byw neu chwyddiant, gael ei weithredu'n deg ac yn gyfartal i'r sawl sy'n cael arian trydydd sector.

Os yw adrannau Llywodraeth Cymru wedi cael cynnydd mewn cyllid o ganlyniad i gostau byw, dylai hyn gael ei gadw mewn cof a'i weithredu mewn ffordd deg i fudiadau trydydd sector. Dylai hyn ddigwydd mewn ffordd amserol a dim mwy na blwyddyn cyn y cyfnod y neilltuwyd yr arian ar ei gyfer. Mae'n bosibl, fodd bynnag, y bydd peth cynnydd gan Lywodraeth Cymru na fydd yn gymwys i'r Trydydd Sector, ac i'r gwrthwyneb. Yn yr un modd, pan fydd cyllid Llywodraeth Cymru o dan bwysau, mae'n rhesymol i ddisgwyl y bydd hyn yn berthnasol hefyd yn achos y Trydydd Sector pan fydd hynny'n briodol.

Disgwylir i fudiadau Trydydd Sector gynnwys amcangyfrifon o gostau byw neu godiadau chwyddiant mewn ceisiadau am gyllid ar adeg y cais; ni ddylid ychwanegu costau chwyddiant o flwyddyn i flwyddyn at linellau'r gyllideb yn y dyfodol os nad ydynt yn hysbys.

## VII. Gwerth am Arian

Mae gwerth am arian mewn llywodraeth yn golygu sicrhau bod arian y trethdalwr yn cael ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Yr egwyddor yw sicrhau'r lefel orau bosibl o allbynnau a chanlyniadau o ansawdd derbyniol am y gost isaf. Mae hyn yn wir yn achos holl weithgarwch Llywodraeth Cymru ac wrth brynu nwyddau a gwasanaethau oddi wrth gyflenwyr allanol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i optimeiddio gwerth am arian drwy:

- Dangos **angen clir i ymyrryd** – achos dros newid
- Pennu **amcanon clir** – yr hyn rydym am ei gyflawni drwy ein buddsoddiadau
- Ystyried **ystod eang o atebion posibl** – dewis yr opsiwn sy'n cyflawni'r amcanion gyda'r cydbwysedd gorau rhwng buddiannau, cost a risg
- Rhoi'r trefniadau ar waith i **gyflawni'r cynnig yn llwyddiannus**
- Rhoi trefniadau ar waith i **werthuso gweithgareddau** – nodi a lledaenu gwersi a ddysgwyd ac arferion da.

Disgwylir i fudiadau Trydydd Sector wneud defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o arian cyhoeddus.

## VIII. Adennill Costau Llawn

Mae'r egwyddor hon yn cydnabod yr angen i gynnwys pob cost sy'n gysylltiedig â chyflenwi prosiect neu wasanaeth.

Ynghlwm wrth bob prosiect neu weithgarwch, mae dau fath o gost – costau uniongyrchol sy'n codi o ganlyniad i redeg prosiect neu wasanaeth, a gorbenion sy'n codi i fudiad wrth gynnal y prosiectau sy'n cael eu rhedeg ganddo. Mae Adennill Costau Llawn yn golygu cael arian ar gyfer yr holl gostau hyn, neu eu 'hadfer'.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i lefelau ariannu sy'n seiliedig ar egwyddorion Adennill Costau Llawn, ac yn eu hadlewyrchu, wrth ddatblygu ei rhaglenni grant.

Disgwylir y bydd pob ymgeisydd yn defnyddio model Adennill Costau Llawn ar gyfer ariannu prosiectau i sicrhau bod yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r prosiect yn cael eu nodi a'u talu. Disgwylir y bydd mudiadau Trydydd Sector yn defnyddio model addas sy'n cyd-fynd â'r model busnes unigol.

Ceir manylion pellach am egwyddorion Adennill Costau Llawn a chanllaw ar fodolau priodol i gyfrifo cyfraniad teg at orbenion yma [http://www.wcva.org.uk/media/715957/wcva\\_amended\\_overheadsfc\\_r\\_paper\\_f inal.docx](http://www.wcva.org.uk/media/715957/wcva_amended_overheadsfc_r_paper_f inal.docx) a gweler <http://www.thinknpc.org/publications/full-cost-recovery-2/>

## IX. Egwyddorion Comisiynu

Mae comisiynu'n gysyniad eang ac mae iddo lawer o ddiffiniadau. Ffordd syml o ddisgrifio comisiynu yw fel proses barhaus a ddefnyddir i benderfynu pa nwyddau neu wasanaethau sydd eu hangen i gael y canlyniadau a ddymunir i bobl. Mae'n cynnwys penderfyniadau ar sut i gael gwasanaethau sy'n cynnig y gwerth gorau i ddinasyddion a threthdalwyr a sut i fonitro a gwerthuso'r gwasanaethau hyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddiffiniadau comisiynu'n cyfleu darlun o gylch o weithgareddau ar lefel strategol. Mae comisiynu'n cwmpasu'r cylch cyflawn hwn:

- asesu anghenion pobl mewn ardal leol
- dylunio gwasanaethau
- cyflenwi gwasanaethau
- adolygu gwasanaethau

I ddatblygu unrhyw wasanaeth sy'n canolbwyntio ar ein dinasyddion mae canllaw defnyddiol ar gomisiynu gwasanaethau ar gael yn egwyddorion comisiynu Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol fel yr amlinellir yn [Bywydau Bodlon; Cymunedau Cefnogol - Fframwaith Comisiynu \(gweler adran 4\)](#).

Mae hwn yn pwysleisio pwysigrwydd:

- a) Yr angen i ganolbwyntio ar anghenion y grŵp cleientiaid ar draws asiantaethau.
- b) Mae'r broses o ddadansoddi, cynllunio, sicrhau gwasanaethau ac adolygu yr un mor bwysig.
- c) Mae'r gweithgareddau'n dilyn yn eu trefn.
- d) Comisiynu'n gyrru methodoleg gyllido.
- e) Yr angen i'r profiad caffael lywio datblygiad parhaus y strategaeth gomisiynu.
- f) Trafodaeth barhaus rhwng defnyddwyr gwasanaethau / gofalgwyr, rheolwyr achos / gofal, darparwyr a'r trydydd sector.

Disgwylir y bydd yr egwyddorion arferion gorau hyn yn cael eu cymhwyso i gomisiynu ehangach i sicrhau ymgysylltu llawn ym mhob cam o gylch comisiynu'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus a ddisgrifir uchod sef Dadansoddi; Cynllunio; Sicrhau Gwasanaethau; Adolygu.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i lynu wrth yr egwyddorion hyn wrth gomisiynu gwasanaethau gan y Trydydd Sector. Pan fydd yn hwyluso gwasanaethau a ddarperir gan eraill o'r Trydydd Sector, drwy raglenni ariannu penodol, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl iddynt hwythau hefyd lynu wrth yr egwyddorion hyn.

Disgwylir y bydd mudiadau Trydydd Sector yn ymrwmo i ymgysylltu'n llawn mewn prosesau comisiynu.

## X. Taliadau

Polisi Llywodraeth Cymru yw y dylai taliadau gael eu gwneud ar ffurf ôl-daliadau (h.y. ar ôl i'r sawl sy'n cael y grant ysgwyddo'r gwariant); fodd bynnag, mae'n cydnabod nad oes gan y rhan fwyaf o fudiadau Trydydd Sector gronfeydd mawr wrth gefn ac nad oes ganddynt yr adnoddau i wneud gwaith a chael eu talu'n ddiweddarach. Felly, gellir edrych ar ariannu gwariant sydd wedi'i neilltuo fel taliad ymlaen llaw, ond dim ond pan fydd tystiolaeth o angen wedi'i ddangos.

Mae Canolfan Ragoriaeth Grantiau Llywodraeth Cymru wedi datblygu templed ar gyfer mudiadau Trydydd Sector i ddangos eu hangen am daliad ymlaen llaw er mwyn gwneud y broses yn dryloyw. Cytunwyd ar y templed ag Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Os bernir fod angen unrhyw newidiadau, yna cytunir ar y newidiadau â'r Is-bwyllgor cyn eu gweithredu.

Mae'r templed talu ymlaen llaw ar gael ar gais gan Ganolfan Ragoriaeth Grantiau Llywodraeth Cymru.

Bydd cyflwyno trefniadau talu penodol eraill (e.e. Taliad yn ôl Canlyniadau) yn cael eu trafod ymlaen llaw â'r Trydydd Sector i sicrhau nad yw'r sector yn cael ei gau allan nac o dan anfantais.

## XI. Triniaeth deg a rhesymol

Mae Cynllun y Trydydd Sector yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i ymgynghori mewn ffordd agored ac ystyrlon â'r Trydydd Sector ar newidiadau i bolisi neu ddatblygiadau polisi newydd, a hynny ar gynigion a gwasanaethau penodol ac yn fwy cyffredinol. Mae'n arfer da cydnabyddedig i gael cyfnod ymgynghori o 12 wythnos pan fydd hynny'n bosibl. Yn yr un modd, disgwylir bod rhybudd o 12 wythnos yn cael ei roi cyn gwneud unrhyw newidiadau i bolisi neu benderfyniadau a fyddai'n arwain ar dynnu grantiau'n ôl neu eu lleihau'n sylweddol.

Ar y llaw arall, gofynnir i fudiadau Trydydd Sector gydweithredu'n llawn yn ystod y cyfnod o rybudd / ymgynghori a'i ddefnyddio i wneud cyfraniad positif at y drafodaeth ag adrannau neu feysydd polisi / gwasanaeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio'r angen am eglurder o ran yr hyn sy'n cael ei ariannu neu ei brynu drwy ddiffinio a chytuno ar ganlyniadau â'r sawl sy'n cael arian. Dylai'r canlyniadau hyn gael eu hamlinellu mewn ffordd dryloyw mewn trefniadau cyllido er mwyn sicrhau bod mudiadau'n cael eu trin yn deg a rhesymol a bod disgwyliadau'r gwasanaeth a ddarperir yn cael eu rhannu ac y cytunir arnynt.

## XII. Agwedd gydweithredol tuag at fonitro, gwerthuso ac archwilio

Ystyr monitro yw casglu data (gwybodaeth) mewn ffordd reolaidd a systematig sydd wedyn yn cael eu defnyddio i helpu i reoli'r prosiect. Bydd fel

arfer yn ddata rhifol ac sy'n ymwneud â materion ariannol neu ddangosyddion eraill, ond bydd yn cynnwys data ansoddol neu ddata eraill hefyd. Bydd data o'r fath yn cael eu prosesu a'u hadolygu i fesur cynnydd yn erbyn amcanion y cytunwyd arnynt ar y dechrau, er enghraifft o ran gwaelodlinau a rhagamcanion.

Mae cwmpas gwerthuso'n ehangach na monitro. Mae'n cynnwys gwneud asesiad o gyflawniadau cyffredinol prosiect. Mae gwerthusiad yn edrych ar gwestiynau megis:

- A yw amcanion y prosiect wedi'u cyflawni?
- Pa mor effeithlon oedd yr allbynnau a'r canlyniadau a gyflawnwyd?
- Beth fyddai wedi digwydd pe na byddai'r gwasanaeth wedi bod ar gael?

Rhaid i brosesau monitro grantiau a chontractau fod yn gyson, yn gymesur ac yn rhesymol. Bydd swyddogion monitro Llywodraeth Cymru yn defnyddio ystod o adnoddau a dulliau i wneud hyn. Rhaid i bob adran ddatgan yn eglur beth yw ei gofynion a chynnig cymorth a hyfforddiant pan fo'n briodol i gynorthwyo'r trydydd sector i gymryd rhan yn y prosesau monitro a gwerthuso.

#### *Archwilio ac Arolygu*

Yn nhelerau ac amodau grantiau, bydd darpariaeth fel arfer i archwilio cyllid Llywodraeth Cymru yn ffurfiol. Bydd yn rhaid i'r sawl sy'n cael arian gydymffurfio â Thelerau ac Amodau cyllid a fydd yn amlinellu trefniadau archwilio unigol.

Disgwylir i bob mudiad a fydd yn cael arian gadw cofnodion cyfrifyddu eglur sy'n dangos yr holl incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â'r arian fel y nodwyd yn eu Telerau ac Amodau.

Rhaid i fudiadau Trydydd Sector gofio y gallai defnydd eu mudiadau o arian grant gael ei archwilio. Rhaid i fudiadau ganiatáu, heb wrthwynebiad, i swyddogion Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Comisiwn Ewropeaidd, neu eu cynrychiolwyr, ymweld â'u swyddfeydd i archwilio unrhyw weithgareddau neu gofnodion sy'n gysylltiedig â'r defnydd o arian grant.

O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hawliau mynediad helaeth at ddogfennau a gwybodaeth sy'n ymwneud ag arian a roddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r sawl sy'n cael arian yn cytuno i roi cymorth, gwybodaeth ac eglurhad i'r Archwilydd Cyffredinol neu ei swyddogion pe bai angen, fel un o'r amodau ar gyfer cael yr arian.

Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) yn rhan o Lywodraeth Cymru ac mae'n rheoli rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru. Mae Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT) Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am archwilio sampl o brosiectau sy'n cael eu hariannu gan Ewrop i gadarnhau sylwedd y gwariant sydd wedi'i ddatgan i'r Comisiwn Ewropeaidd. Am ragor o wybodaeth, gweler Atodiad 1.



### XIII. Canfod Arbenigedd a Datblygu Gallu i Gyflawni

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod ystod eang o wybodaeth a sgiliau i'w cael yn y Trydydd Sector yng Nghymru a all, ac sydd, yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth a gwella bywydau pobl a chymunedau Cymru. Fodd bynnag, mae angen cymorth ar fudiadau Trydydd Sector i sicrhau eu bod yn cyflawni eu llawn potensial a bod arferion da'n cael eu rhannu mor eang â phosibl ar draws y sector a thu hwnt.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda'r Trydydd Sector i ganfod meysydd arbenigedd ac i gynorthwyo mudiadau ac unigolion i gymryd yr awenau neu i gyfrannu at y gwaith o weithredu polisïau newydd. Bydd mecanweithiau cyllido'n cael eu cynllunio gyda'r nod hwn mewn cof, a bydd arian i gyrff seilwaith y Trydydd Sector yn benodol yn cynnwys meithrin galluoedd mudiadau Trydydd Sector ar bob lefel i sicrhau bod eu gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol.

### XIV. Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod anghenion amrywiol pobl a chymunedau ledled Cymru a'r amrywiaeth o wasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymdrechu i gryfhau ac annog partneriaethau a chysylltiadau ar draws pob sector ac mae'n cydnabod rolau cyflenwol y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat i ddarparu'r gwasanaethau hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod cynnal cydbwysedd cywir y gwasanaethau amrywiol hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid ei ystyried.

Mae amrywiaeth yn y cyd-destun hwn yn golygu cynnal ystod o wasanaethau hygyrch i ddiwallu amrywiaeth o anghenion unigol a chyfunol; gwasanaethau wedi'u lleoli a'u rhedeg yn lleol, yn ogystal â rhai mwy; modelau gwasanaeth gwahanol i ddiwallu gwahanol anghenion; a sicrhau nad oes un math o wasanaeth neu ddarparwr gwasanaeth yn mygu'r system. Y nod yw sicrhau darpariaeth gyfartal o wasanaethau o ansawdd uchel ym mhob lleoliad, a phob diddordeb, ac i ystyried anawsterau darparu gwasanaethau mewn ardaloedd anghysbell neu wledig neu ar gyfer pobl ag anghenion penodol, gan gynnwys iaith.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y Gymraeg yn rhan anhepgor o hunaniaeth Cymru ac mae wedi ymrwymo i greu Cymru wirioneddol ddwyieithog, lle gall pobl fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg neu'r ddwy iaith. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cadarnhau statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru ac mae wedi arwain at sefydlu rôl Comisiynydd y Gymraeg. Prif swyddogaeth y Comisiynydd yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd y Comisiynydd hefyd yn monitro ac yn gorfodi cydymffurfiaeth â safonau i'r graddau maent yn berthnasol i gategoriâu cyrff sy'n rhan o'r Trydydd Sector.

Mae cyfraniad y Trydydd Sector yn hanfodol i oroesiad a thwf y Gymraeg fel iaith gymunedol gan ei fod yn creu cyfleoedd i bobl wirfoddoli, ac mae'n darparu gwasanaethau gwirfoddol yn Gymraeg, yn ogystal â dathlu'r iaith a'r traddodiadau sydd ynghlwm wrthi. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai defnyddwyr gwasanaeth gael yr un cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn y Trydydd Sector, a bod y Gymraeg yn cael ei phrif-ffrydio drwy'r holl ddatblygiadau polisi a'r dyraniadau cyllid.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gynorthwyo mudiadau bach a chanolig i sicrhau bod arferion cyllido yn gymesur ac nad ydynt yn creu rhwystrau anfwriadol i fudiadau llai. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol iawn o ystyriaethau yn ymwneud â hygyrchedd i grwpiau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a all fod yn brin o adnoddau, neu sy'n wynebu rhwystrau sy'n ei gwneud yn anodd iddynt i fod yn rhan o'r prosesau ariannu hyn.

#### XV. Arloesi

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda'r Trydydd Sector, cyllidwyr, partneriaid ac asiantaethau eraill i ganfod arferion arloesol i wella'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu darparu yng Nghymru, gan gynnwys edrych ar fodolau cyllido newydd pan fydd hynny'n briodol. Mae angen cydbwysu'r ymrwymiad hwn i arloesi â chydabyddiaeth bod dilyniant gwasanaethau, mewn llawer o achosion, hefyd yn werthfawr.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau ar ddulliau arloesol i roi sylw i broblemau ac anghenion cymunedau. Os bydd yn briodol, edrychir ar gyfleoedd i rannu'r dulliau hyn ag adrannau eraill y Llywodraeth sy'n ariannu'r Trydydd Sector, ynghyd â chyfleoedd i weithio gyda mudiadau eraill yn y Trydydd Sector.

#### XVI. Llywodraethu Da a Diwydrwydd Dyladwy

Mae'r egwyddor hon yn pwysleisio'r angen am lywodraethu da a diwydrwydd dyladwy.

- Llywodraethu yw'r systemau a'r prosesau sy'n ymwneud â sicrhau cyfeiriad cyffredinol, effeithiolrwydd, goruchwyliaeth ac atebolrwydd mudiad
- Diwydrwydd dyladwy yw adolygu'r systemau a'r prosesau hyn i ddangos cydymffurfiaeth mewn meysydd megis y Bwrdd, Strategaeth, Pobl, Cyllid a dyletswyddau Cyfreithiol.

Mae saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (sy'n cael eu galw weithiau'n "Egwyddorion Nolan") wedi deillio o'r Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus a sefydlwyd yn 1994 o dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Nolan. Er bod gwaith y Pwyllgor ar y dechrau wedi canolbwyntio ar rôl gwleidyddion ac eraill mewn swyddi proffil uchel, mae'r egwyddorion hyn yn cael eu gweithredu'n llawer mwy cyffredinol ac maent yn berthnasol i unrhyw un sy'n gweithio ym maes gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys mudiadau

Trydydd Sector. Ceir rhagor o wybodaeth am waith y Pwyllgor yn <http://www.public-standards.gov.uk/>

Dyma'r Egwyddorion:

- Anhunanoldeb
- Didwylledd
- Gwrthrychedd
- Atebolrwydd
- Tryloywder
- Gonestrwydd
- Arweinyddiaeth

Mae *Llywodraethu Da; Cod i'r Trydydd Sector yng Nghymru* yn adlewyrchu Egwyddorion Nolan ac mae'n amlinellu chwe egwyddor ar gyfer llywodraethu da y gellir eu cymhwyso ar draws y Trydydd Sector (gweler <http://www.wcva.org.uk/advice-guidance/trustees-and-governance/publications>).

Bydd bwrdd / corff llywodraethu effeithiol mudiadau'n sicrhau arweinyddiaeth a threfn lywodraethu dda drwy:

1. Deall eu rôl
2. Sicrhau bod diben y mudiad yn cael ei gyflawni
3. Gweithio'n effeithiol fel unigolion ac fel tîm
4. Sicrhau rheolaeth effeithiol
5. Ymddwyn gydag uniondeb
6. Bod yn agored ac yn atebol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu egwyddorion llywodraethu da a diwydrwydd dyladwy wrth ariannu'r Trydydd Sector. Disgwylir y bydd mudiadau'r Trydydd Sector yn gweithredu'r egwyddorion hyn yn eu gwaith, ac wrth gynorthwyo neu gynghori mudiadau Trydydd Sector eraill.

## XVII. Monitro'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector

Yn ei hanfod, mae'r egwyddor hon yn ymwneud â chydymffurfio â'r Cod Ymarfer hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi prosesau monitro cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod y Cod Ymarfer hwn yn effeithiol a'i fod yn parhau'n berthnasol ac yn cael ei ddiweddarau.

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn cynnal archwiliadau dirybudd i sicrhau bod arian grant a ddyfernir yn cael ei roi mewn ffordd briodol ac sy'n cydymffurfio â'r gofynion. Rhaid i swyddogion grant ddangos, heb rybudd, dystiolaeth ddogfennol o'u cydymffurfiaeth. Er nad yw'r archwiliadau dirybudd hyn yn ymwneud yn benodol â gweithredu'r Cod, maent yn cynnwys cydymffurfiaeth â'r Cod o ran hysbysu cyllid, y cytundeb cyllido a hyd y cyfnod cyllido.

Mae cydymffurfiaeth â'r Cod wedi'i gynnwys yn y safonau sylfaenol ar gyfer rheoli grantiau. Y safonau sylfaenol yw'r prosesau y mae'n rhaid eu dilyn, a rhaid dangos tystiolaeth o hynny, gan bob rheolwr grantiau i ddangos bod y grant yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd briodol ac sy'n cydymffurfio.

Bydd cydymffurfiaeth â'r Cod hwn yn cael ei nodi'n glir mewn Llythyrau Cynnig Grant hefyd, ac yn Nhelerau ac Amodau grantiau wedi'u neilltuo a roddir i gyrff cyhoeddus.

Mae ymarferiad blynyddol yn cael ei gynnal hefyd i ganfod a yw pawb yn y Trydydd Sector sy'n cael grant wedi cael digon o rybudd o drefniadau cyllido. Mae'r canfyddiadau'n cael eu cyflwyno i Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector.

Mae Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn gyfrwng pwysig i fonitro'r Cod, ynghyd ag Adroddiad Blynyddol ar gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru â Chynllun y Trydydd Sector a'r Cod.

Mae ymrwymiad i roi sylw i ddiffyg cydymffurfiaeth. Os nad oes cydymffurfiaeth, bydd eglurhad o'r amgylchiadau yn cael ei gynnig i Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, a gweithredir ar hynny os bydd yn briodol. Mae disgwyl hefyd y bydd mudiadau Trydydd Sector sy'n cael arian yn agored ac yn barod i roi gwybod am ddiffyg cydymffurfiaeth â'r Cod hwn, er mwyn galluogi'r Is-bwyllgor i gyflawni ei swyddogaeth i fonitro'r Cod.

## RHAN DAU: ARIANNU A CHOMISIYNU

### I. Fframwaith Comisiynu Llywodraeth Cymru

Fel y disgrifiwyd uchod yn egwyddor IX, mae nifer o ddiffiniadau gwahanol o gomisiynu a chaffael, sy'n pwysleisio gwahanol agweddau ar y tasgau sydd ynghlwm wrth hynny, yn ddibynnol ar eu cyd-destun. Fel y dywedwyd yn yr egwyddor honno, mae model Llywodraeth Cymru ar gyfer comisiynu gofal cymdeithasol i'w weld yn [Bywydau Bodlon; Cymunedau Cefnogol – Fframwaith Comisiynu.](#)

Mae'r Fframwaith yn ceisio sicrhau mai canlyniadau sy'n gyrru gwasanaethau. Mae comisiynu sy'n seiliedig ar ganlyniadau'n golygu rhoi set o drefniadau ar waith lle mae gwasanaethau'n cael eu diffinio a'u talu amdanynt ar sail set gytunedig o ddeilliannau neu ganlyniadau.

O reidrwydd, man cychwyn a phrif bwyslais y dull hwn yw'r **deilliannau** sef y canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer y gweithgarwch, yr ymyriad neu'r gwasanaeth a gomisiynwyd, ac nid y gweithgarwch ei hun.

Yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru â'r Trydydd Sector (Mai – Awst 2013) penderfynwyd y byddai comisiynu sy'n seiliedig ar ganlyniadau'n dilyn y camau hyn:

- Diffinio'r broblem sydd i'w datrys a'r canlyniad a ddymunir (y newid angenrheidiol);
- Cyd-ddylunio dewis o opsiynau a fydd yn delio â'r materion a nodwyd a'u hasesu ar sail y canlyniad a ddiffiniwyd;
- Ariannu opsiwn/dewis o opsiynau i sicrhau'r canlyniad a ddymunir (ar ôl cytuno ar y dull ariannu);
- Gwerthuso i weld beth sy'n gweithio'n dda a beth y gellid ei wella a cheisio sicrhau ffordd o gyflwyno'r gwasanaeth hwnnw'n raddol dros gyfnod hirach;
- Sicrhau bod pob darparwr posibl yn gallu cystadlu am y gwasanaeth terfynol ar delerau cyfartal.

## II. Mecanweithiau Ariannu

### **Grantiau**

#### Beth yw grant?

Mae grant yn arian y gall Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill ei ddyfarnu fel ffordd o gynnig cymorth ariannol i fudiadau trydydd sector i'w galluogi i ymgymryd â gweithgareddau y mae Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yn dymuno'u cefnogi.

Gall grantiau gael eu hanelu fel cyfraniad at gostau craidd o redeg a datblygu mudiad neu'n fwy penodol i'w helpu i ymgymryd â phrosiect neu wasanaethau penodol. Nid yw rhoddwr y grant yn contractio ar gyfer darparu gwasanaeth sy'n rhan o'i fusnes eu hun.

#### Beth yw arian grant wedi'i neilltuo a heb ei neilltuo?

Mae arian grant weithiau'n cael ei ddsbarthu'n arian wedi'i neilltuo ac arian heb ei neilltuo:

- Mae grant wedi'i neilltuo yn golygu arian wedi'i glustnodi sy'n benodol i brosiect, ac mae'n rhaid ei wario'n unol â'r dibenion penodol y cytunwyd arnynt adeg dyfarnu'r grant;
- mae grant heb ei neilltuo'n golygu arian heb ei glustnodi, a gall y cyrff sy'n cael y grant hwn ei wario'n ôl eu disgresiwn – mae hyn yn cynnwys Grantiau Cymorth Refeniw sy'n cael eu talu i awdurdodau lleol. Ychydig iawn o grantiau sy'n cael eu dyfarnu ar sail heb ei neilltuo.

#### Beth yw cyllid craidd?

Mae cyllid craidd yn anodd iawn i'w ddiffinio gan fod llawer o amrywiadau o ran yr hyn sy'n cyfrif fel cyllid craidd gan ddibynnu ar y cyd-destun, fel maint neu natur mudiad. Fel arfer, bydd cyllid craidd yn cael ei roi i ariannu mudiad Trydydd Sector i ymgymryd â gweithgareddau y mae'r mudiad Trydydd Sector yn eu dewis o fewn paramedrau cyffredinol y cytunwyd arnynt â chorff cyhoeddus. Defnyddir cyllid craidd os yw lefel yr ymddiriedaeth rhwng y corff cyhoeddus a'r Mudiad Trydydd Sector yn uchel.

O dan gyllid craidd, bydd y berthynas rheoli rhwng y mudiadau Trydydd Sector a'r corff cyhoeddus yn un hyd braich yn fwriadol. Fel arfer, mae'r corff cyhoeddus yn rhoi cyngor ar ei flaenoriaethau unwaith y flwyddyn. Mewn perthynas sy'n seiliedig ar gyllid craidd, ni ddylai prosesau'r corff cyhoeddus i fonitro a gwerthuso'r mudiad Trydydd Sector fod yn un rhy lawdrwm a dylai trefniadau atebolrwydd bwysleisio atebolrwydd yr ymddiriedolwyr (neu unigolion cyfatebol).

Fel arfer, bydd cyllid craidd yn caniatáu'r corff a ariennir i gyflawni ei weithgareddau allweddol fel y'u diffiniwyd yn ei ddogfen lywodraethu. Bydd

cyllid craidd gan amlaf yn cael ei roi am gyfnod penodol (hyd at 3 blynedd) ond gellir ei ddyfarnu am gyfnod parhaus. Er nad yw trefniadau cyllido'n debygol o fod yn hwy na thair blynedd, gwneir ymrwymiad i gynyddu'r cyfnod pan fydd hynny'n bosibl, er mwyn lleihau unrhyw gostau gweinyddol a gwella effeithlonrwydd y trefniadau cyllido.

### Beth yw cyllid prosiect?

Yng nghyd-destun arian grant, mae cyllid prosiect yn cyfeirio at arian a delir i gyflawni canlyniadau o ganlyniad i brosiect unigol o fewn rhaglen arian grant. Gellir defnyddio cyllid prosiect tuag at gostau refeniw e.e. cyflogau a chostau cynnal o ddydd i ddydd, a / neu gostau cyfalaf e.e. costau sy'n gysylltiedig â datblygu neu brynu eitemau cyfalaf megis adeiladau. Bydd cyllid ar gyfer gweithgareddau prosiect am amser cyfyngedig yn unig. Os oes cyfyngiad amser ar gyfer prosiect penodol (llai na 12 mis yn aml), a'i fod y tu allan i gylch blwyddyn ariannol, ni fydd tri mis o rybudd ynghylch cyllid cyn dechrau'r prosiect bob amser yn realistig nac yn ddymunol.

### Grant neu Gaffael?

Mae hwn yn faes dyrys iawn. Yn aml nid oes ateb syml i'r cwestiwn sy'n gofyn a ddylai gofyniad Llywodraeth sy'n cynnwys defnydd o arian cyhoeddus fod yn arian grant neu gaffael.

Dyfernir arian grant i gyrff allanol ariannu neu ad-dalu gwariant am weithgareddau neu eitemau y cytunwyd arnynt. Gall grantiau gael eu dyfarnu'n gystadleuol mewn achosion lle mae'r galw am arian yn fwy na'r arian sydd ar gael, a gellir ei ddefnyddio fel cyllid craidd i ariannu rhai mudiadau. Caffael yw cael nwyddau a gwasanaethau gan gyflenwyr trydydd parti, fel arfer drwy drefniadau tendro, o dan delerau contract sy'n rhwym mewn cyfraith.

Un elfen allweddol wrth benderfynu a ddylid defnyddio arian grant neu drefniadau caffael yw pa mor agos yw'r hyn sy'n cael ei bwrcasu at anghenion busnes y Llywodraeth neu bolisi'r Llywodraeth. Yn gyffredinol, dylid defnyddio arian grant pan fydd y Llywodraeth am roi help ariannol i gyrff allanol ymgymryd â gweithgareddau i helpu i gyflawni ei hamcanion polisi a'i blaenoriaethau. Fodd bynnag, dylid defnyddio prosesau caffael pan fydd y Llywodraeth yn diffinio'n benodol y nwyddau a / neu wasanaethau sydd eu hangen arni ar gyfer ei budd neu ei defnydd uniongyrchol.

Ceir dangosyddion i bennu pa ddull fyddai'r mwyaf priodol drwy ofyn rhai cwestiynau allweddol. Gofynnir rhai ohonynt isod:

- C A oes gan y Llywodraeth bŵer cyfreithiol i ymgymryd â gwaith i sicrhau canlyniadau a ddymunir h.y. cyflogi staff i wneud y gwaith yn uniongyrchol?
- A Os nad oes gan y Llywodraeth y pŵer cyfreithiol i wneud y gwaith ei hun, nid yw'n debygol y byddai ganddi'r awdurdod i'w cael o dan drefniadau

contract. Felly, o ran y dangosydd penodol hwn, mae'n debygol y byddai'r Llywodraeth yn mynd ati i gyflawni ei hamcanion drwy arian grant.

- C A oes bwriad i'r canlyniadau a ddymunir fod o fudd uniongyrchol i'r Llywodraeth i hyrwyddo ei swyddogaethau neu ei hamcanion polisi?
- A Os mai'r bwriad yw sicrhau gwasanaeth uniongyrchol i'r Llywodraeth un ai i gyflenwi nwyddau a gwasanaethau (e.e. swyddfa wedi'i chyflenwi) neu i hyrwyddo ei swyddogaethau neu ei hamcanion polisi'n uniongyrchol (e.e. recriwtio ymgynghorwyr) yna caffael yw'r dull tebygol. Gall recriwtio ymgynghorwyr ymchwil, er enghraifft, fod yn ddiddordeb neu fudd eilaidd ehangach, ond mae'r cwestiwn a yw'r canlyniadau ymchwil o fudd uniongyrchol i'r Llywodraeth yn bennaf yn parhau'n berthnasol.
- C A yw'r Llywodraeth yn bwriadu darparu'r holl arian i ateb y gofynion ar gyfer yr hyn mae'r cyllid yn cael ei dalu?
- A Os yw'n gwneud hynny, yna byddai hyn yn ffactor o blaid y trywydd caffael. Yn aml bydd arian grant yn talu rhan yn unig o gost prosiect neu weithgaredd gydag arian yn dod o ffynonellau eraill hefyd. Mae hyn yn golygu y bydd gan gyllidwyr eraill hefyd lais yn y penderfyniad ar gyfeiriad a chanlyniadau'r gwaith.
- C Pa lefel o reolaeth mae'r Llywodraeth yn dymuno'i chael i sicrhau bod canlyniadau'n cael eu cyflawni?
- A Po fwyaf rhagnodol y mae'r Llywodraeth yn dymuno bod o ran pennu'r gwasanaeth sy'n ofynnol neu'r canlyniadau y dylid eu sicrhau, y mwyaf tebygol ydyw mai caffael yw'r trywydd y dylid ei ddilyn.

### Tîm Ymateb Cyflym

Mae'r Tîm Ymateb Cyflym yn cynnwys cynrychiolwyr o'r disgyblaethau perthnasol o fewn y Llywodraeth a gellir ei alw ar fyr rybudd os bydd sefyllfa'n arbennig o gymhleth ac os nad oes modd penderfynu ar arian grant neu gaffael. Ei nod yw argymhell y ffordd orau ymlaen i sicrhau'r gwerth gorau am arian.

### Rheoli Grantiau a Rôl y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau

Mae grantiau'n bwysig iawn yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio grantiau fel cyfrwng i gyflawni amcanion polisi; maent yn galluogi'r sector cyhoeddus a'r Trydydd Sector i ddarparu gwasanaethau sy'n cael effaith uniongyrchol ar fywydau pobl yng Nghymru.

Er mwyn gwella sut y mae grantiau Llywodraeth Cymru yn cael eu rheoli, cafodd y **Ganolfan Ragoriaeth Grantiau** ei sefydlu i roi cyngor, cymorth ac arweiniad arbenigol i bwy bynnag sy'n gweithio â grantiau yn y mudiad. Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn ffynhonnell bwysig am gyngor, hyfforddiant ac arweiniad corfforaethol i reoli arian grant yn Llywodraeth Cymru, gyda'r



nod o gynyddu cydymffurfiaeth, cysondeb ac ansawdd mewn Rheoli Grantiau yng Nghymru. Gyda'i gilydd, mae gan staff y Ganolfan Ragoriaeth brofiad helaeth o weithio ag arian grant a gafwyd yn sgil eu gwaith ar raglenni grant yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector.

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth wedi cyflwyno nifer o fesurau i wella trefniadau rheoli grantiau. Er enghraifft, mae wedi:

- datblygu set o safonau sylfaenol ar gyfer arian grant
- darparu arweiniad gweithredol manwl
- cyflwyno llythyr dyfarnu enghreifftiol i wella cysondeb, cydymffurfiaeth ac eglurder yn y cytundebau ariannu rhwng y Llywodraeth a'r cyrff a ariennir
- cyflwyno hyfforddiant gorfodol i uwch swyddogion grantiau, defnyddwyr system e-Grantiau a Rheolwyr Grantiau i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli mewn ffordd effeithiol a chyfrifol
- creu safle mewnwyd pwrpasol sy'n cynnig ffynhonnell ganolog o newyddion am grantiau, cyngor ac arweiniad.

Er mai prif rôl y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yw ymgymryd â gweithgarwch i wella arferion rheoli grantiau drwy hybu cydymffurfiaeth â'i safonau sylfaenol, mae hefyd yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer cyrff allanol, gan gynnwys rhai o'r trydydd sector, sydd ag ymholiadau neu bryderon am y ffordd mae'r Llywodraeth yn rheoli eu grantiau.

### *Safonau Sylfaenol*

Mae safonau sylfaenol y Ganolfan Ragoriaeth yn adlewyrchu dull Llywodraeth Cymru o reoli a gweinyddu arian grant drwy amlinellu'r prosesau a'r gweithdrefnau sylfaenol y dylid eu dilyn ym mhob cam o'r cylch arian grant.

Bydd glynu wrth y safonau'n helpu i sicrhau bod rhaglenni grant yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu Llywodraeth Cymru a'r gyfraith, polisi ac arferion da perthnasol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau gwasanaethau grant agored, cyson ac atebol sy'n rhoi pwyslais ar gyflawni canlyniadau a rhoi sicrwydd o reoleidd-dra a chywirdeb i'r pwrs cyhoeddus.

Mae modd gweld y Safonau drwy ddilyn y ddolen hon:

<http://wales.gov.uk/funding/grants/contact-us/?skip=1&lang=cy>

### *Gweithredu'r safonau*

Bydd amryw o ffactorau'n penderfynu i ba raddau y bydd y safonau sylfaenol yn cael eu gweithredu'n ymarferol, a'r pwysicaf ohonynt yw pa ddull o ddyrannu arian grant a ddefnyddir.

Efallai y bydd rhesymau digonol eraill pam, ar adegau, na fydd yn bosibl neu'n fuddiol i bob cynllun grant gydymffurfio â'r safonau. Mater lleol yw penderfyniadau am reoli a gweinyddu rhaglen grant yn y pen draw (h.y. i

adrannau Llywodraeth Cymru). Fodd bynnag, rhaid i adrannau roi sylw dyladwy i'r safonau hyn wrth wneud eu penderfyniadau.

### *Mesurau perfformiad*

Dylai adrannau Llywodraeth Cymru bennu mesurau perfformiad pendant i sicrhau bod modd cyflawni amodau ac amcanion rhaglenni grant a'u bod yn canolbwyntio ar wneud gwahaniaeth mesuradwy.

Mae mwy o bwyslais ar gyflenwi a chyflawni canlyniadau o fewn Llywodraeth Cymru. Un ffordd o gynllunio gweithgareddau ac asesu eu perfformiad sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau neu'r deilliannau y gobeithir y byddant yn eu cyflawni yw drwy ddefnyddio Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA). Mae safonau sylfaenol, canllawiau a hyfforddiant grantiau'r Ganolfan Ragoriaeth yn adlewyrchu'r dull hwn, ac yn mynnu y dylai perfformiad, o leiaf, gael ei fonitro a bod canlyniadau ac effeithiau'n cael eu gwerthuso.

Mae rhagor o wybodaeth am RBA ar gael yn <http://www.resultsaccountability.com/> neu <http://www.raguide.org/>

## Caffael

Diffiniad Llywodraeth Cymru o gaffael yw'r broses sy'n galluogi mudiadau i ddiwallu eu hangen am nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau.

Wrth ymgymryd â'i gweithgarwch caffael mae Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio'n llawn â Pholisi Caffael Cyhoeddus Cymru a lansiwyd gan y Gweinidog Cyllid fis Rhagfyr 2010, ac mae i'w weld yma:

<http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2012/welshprocurement/?skip=1&lang=cy>

<http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2012/welshprocurement/?lang=en>

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno â'r egwyddorion polisi hyn ac wedi eu mabwysiadu ac wrth ymgymryd â gweithgarwch caffael, disgwylir i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru fabwysiadu'r egwyddorion polisi canlynol:

1. **Strategol** – dylai gwaith caffael gael ei gydnabod a'i reoli fel swyddogaeth gorfforaethol strategol sy'n trefnu a deall gwariant; gan ddylanwadu ar y gwaith cynnar o gynllunio a threfnu gwasanaethau a chyfrannu at y broses benderfynu er mwyn cynorthwyo'r gwaith o gyflawni amcanion cyffredinol.
2. **Adnoddau proffesiynol** – dylai gwariant caffael fod yn ddarostyngedig i lefel briodol o gyfraniad a dylanwad proffesiynol, gan fabwysiadu'r meincnod cychwynnol o un gweithiwr caffael proffesiynol o leiaf i bob £10 miliwn o wariant.
3. **Effaith Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol** – dylid ystyried Gwerth am Arian fel y cyfuniad gorau posibl o gostau oes gyfan o ran sicrhau arbedion a chanlyniadau o safon uchel ar gyfer y sefydliad, a hefyd dylai fod o fudd i gymdeithas a'r economi gan leihau niwed i'r amgylchedd.
4. **Manteision Cymunedol** – mae sicrhau gwerth ychwanegol drwy bolisi Manteision Cymunedol yn gorfod bod yn rhan annatod o waith caffael.
5. **Cystadleuaeth agored, hygyrch** – dylai cyrff cyhoeddus fabwysiadu dulliau caffael cymesur sy'n seiliedig ar risg i sicrhau bod cyfleoedd contract ar gael i bawb ac nad yw cyflenwyr lleol a llai o faint yn cael eu hatal rhag ennill contractau fel unigolion, fel rhan o gonsortia neu drwy swyddogaethau yn y gadwyn gyflenwi.
6. **Prosesau Safonol Syml** – dylai prosesau caffael fod yn agored a thryloyw ac yn seiliedig ar dulliau safonol a dylent ddefnyddio systemau cyffredin sy'n lleihau cymhlethdod, cost, amserlenni a gofynion cyflenwyr mewn ffordd briodol.
7. **Cydweithredu** – dylid mynd i'r afael â meysydd o wariant cyffredin ar y cyd gan ddefnyddio dulliau a manylion safonol i leihau dyblygu, i gael

yr ymateb gorau gan y farchnad, i sefydlu arferion gorau ac i rannu adnoddau ac arbenigedd.

8. ***Ymgysylltu â Chyflenwyr ac Arloesi*** – dylid gwella deialog â chyflenwyr i helpu i gael y gorau o'r farchnad, i hysbysu ac addysgu cyflenwyr ac i sicrhau'r gwerth am arian gorau.
9. ***Mesur ac Effaith*** – yn unol ag arferion rheoli da, dylid monitro perfformiad a chanlyniadau gwaith caffael i gefnogi gwelliannau parhaus a dylai enghreifftiau o arferion da a drwg gael eu rhannu'n agored.

### Beth yw contract?

Mae contract yn: 'gytundeb rhwym mewn cyfraith rhwng dau neu fwy o bartion'.

Gellir creu, newid neu derfynu contract mewn tair ffordd:

- yn ysgrifenedig;
- ar lafar; neu
- drwy weithredoedd y partion.

Bydd contract da yn:

- Diffinio'r nwyddau, y gwasanaethau neu'r gwaith a brynir.
- Cynnwys cofnod o'r gofynion cyflenwi, y pris a'r gofynion archwilio.

### Rheoli Contractau a Rôl Gwerth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i sicrhau'r gwerth am arian gorau yn ein holl wasanaethau cyhoeddus. Rôl Is-adran Gwerth Gorau Llywodraeth Cymru yw cynorthwyo sefydliadau sector cyhoeddus Cymru i ymestyn y bunt Gymreig ymhellach.

Mae Gwerth Cymru yn gweithredu fel catalydd am newid, i roi arweiniad, cyfeiriad strategol, hyfforddant caffael ac arweiniad ar arferion gorau i helpu sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni gwelliannau gwirioneddol a chynaliadwy.

Er mwyn helpu i sicrhau bod sefydliadau'n caffael mewn ffordd effeithiol ac effeithlon mae Gwerth Cymru wedi datblygu Canllaw Cynllunio Caffael wrth brynu'r canlynol:

- Nwyddau a Gwasanaethau
- Gofal Cymdeithasol
- Bwyd

Mae'r Canllawiau Cynllunio'n rhoi cyngor ac arweiniad ar gaffael ar hyd y daith o ganfod yr angen i brynu a rheoli contractau.

Gellir eu gweld yn <http://prp.wales.gov.uk/>

## Ceisiadau ar y Cyd

Mae Canllaw Ceisiadau ar y Cyd wedi cael ei gynhyrchu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru. Mae wedi'i anelu at brynwyr yn y sector cyhoeddus a busnesau a mudiadau Trydydd Sector sy'n ystyried gwneud cais am gontractau sector cyhoeddus fel consortiwm.

Mae'r canllaw wedi'i rhannu'n 18 o benodau byr ar wahanol gamau'r cylch caffael, o ffurfio strategaeth, o gynllunio i ddyfarnu'r contract. Gellir gweld y canllaw yma

<http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/bettervfm/publications/jointbiddin g/?skip=1&lang=cy>

## Mecanweithiau cyllido eraill

Mae ffynonellau arian eraill heblaw am grantiau a chaffael hefyd ar gael gan Lywodraeth Cymru. Dylid nodi bod y rhain yn rhaglen benodol ac nad ydynt ar gael i bob corff o dan bob rhaglen grant. Mae ffynonellau arian eraill yn cynnwys :

**Nawdd** – swm o arian a delir am yr hawl i gael cysylltiad cyhoeddus â gweithgarwch, eitem neu eiddo yn gyfnewid am set o fuddiannau. Gallai hyn gynnwys noddi digwyddiad, noddi ar y cyfryngau neu gyfathrebu cydweithredol.

**Benthyciadau** – swm o arian a roddir gan Lywodraeth Cymru i gyrff allanol yn y disgwyl y bydd y swm a roddwyd yn cael ei dalu'n ôl yn llawn (gyda / heb elfen llog ychwanegol).

**Cyllid Ecwiti** – rhoddir gan Lywodraeth Cymru i gyrff allanol yn gyfnewid am gyfran ecwiti yn hytrach na chyfran benthyciad.

**Cymorth i Undebau Credyd** – gall undebau credyd fod yn opsiwn arall yn lle cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog neu fenthyciadau ar unwaith. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi undebau credyd yng Nghymru i'w galluogi i helpu mwy o bobl.

Mae dulliau eraill o ariannu'r Trydydd Sector yn y broses o gael eu datblygu, er enghraifft, modelau newydd fel Bondiau Effaith Gymdeithasol.

Mae Llywodraeth Cymru yn annog sefydliadau sy'n ariannu'r Trydydd Sector i ystyried yr holl gyfleoedd a'r mecanweithiau sydd ar gael.

## RHAN TRI: ATODIADAU I'R COD YMARFER DRAFFT AR GYFER ARIANNU'R TRYDYDD SECTOR

### Atodiad 1: Prif elfennau grantiau a chontractau

#### Prif Elfennau Telerau ac Amodau Grantiau

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi datblygu templed o lythyr dyfarnu enghreifftiol i helpu i ddiogelu atebolrwydd Llywodraeth Cymru i'r pwrs cyhoeddus drwy ddefnyddio dogfennaeth gyfreithiol sy'n gyson, yn cydymffurfio ac sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r llythyr enghreifftiol hefyd yn gweithredu fel mesur effeithlonrwydd gan fod modd i Swyddogion Grantiau ei addasu'n rhwydd ar gyfer gofynion gwahanol weithgareddau sy'n cael eu hariannu gan grantiau.

Mae'r llythyr yn cynnwys 22 o adrannau sy'n cael eu hategu gan atodlenni sy'n cynnwys y gofynion manwl sy'n gysylltiedig â gweithgareddau penodol a ariennir. Prif adrannau'r llythyr yw:

- **Yr hyn mae'n rhaid defnyddio'r Arian ar ei gyfer** – mae'n bwysig bod y Llywodraeth a'r corff a ariennir yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain o ran defnyddio arian grant.
- **Rhagamodau cyllido** – yr amodau y bydd yn rhaid i gorff a ariennir eu bodloni cyn y bydd yr arian yn cael ei ryddhau.
- **Sut i hawlio'r Arian** – mae hon yn adran bwysig gan ei bod yn egluro pa bryd fydd taliadau'n cael eu gwneud a'r hyn y bydd yn rhaid i gyrff a ariennir ei wneud i fodloni Swyddogion Grantiau bod yr arian wedi (neu mewn rhai achosion, a fydd yn) cael ei ddefnyddio'n gyfrifol ac i'r dibenion a fwriadwyd yn unig.
- **Eich ymrwymadau cyffredinol i ni** – mae hyn yn cyfeirio at y meysydd lle bydd yn rhaid i gyrff a ariennir roi mesurau ar waith i atal twyll, i sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl gyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol, i reoli risg ac i gydweithredu'n gyffredinol â swyddogion Llywodraeth Cymru mae angen sicrwydd arnynt bod pob arian grant yn cael ei ddefnyddio'n briodol.
- **Datganiadau** – hwn yw cytundeb ffurfiol y corff a ariennir sy'n datgan y bydd yn cydymffurfio â'r holl delerau ac amodau cyllido a amlinellir yn y llythyr dyfarnu.
- **Digwyddiadau Hysbysu a'u canlyniadau** – rhaid i gyrff a ariennir gydymffurfio â darpariaethau'r adran hon os bydd un neu fwy o ddigwyddiadau rhagnodedig yn digwydd (e.e. os oes gordaliad wedi'i wneud neu os nad yw'r corff a ariennir wedi cydymffurfio â'r amodau ariannu – rhoddir rhestr gyflawn mewn atodlen i'r llythyr). Mae'r adran hon hefyd yn datgan beth all Llywodraeth Cymru ei wneud mewn ymateb i hysbysiad o'r fath.

- **Gofynion archwilio** – fel rhai sy'n derbyn arian cyhoeddus, mae'n briodol bod cyrff a ariennir yn rhoi cyfrif am arian o'r fath, ac yn dangos eu bod yn ei ddefnyddio'n briodol a chyfrifol. Pan fydd angen, rhaid iddynt roi mynediad i swyddogion Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Comisiwn Ewropeaidd (neu eu cynrychiolwyr) archwilio unrhyw weithgareddau a ariennir a dogfennau cysylltiedig.

## Prif Elfennau Contract

### **Y Contract**

- Mae'n cynnwys yr holl ddogfennau (a gohebiaeth) sy'n dod o fewn cwmpas 'cynnig a derbyn'.
- **Telerau ac Amodau (Amodau Contract)**
  - Hawliau ac ymrwymadau contract sy'n gysylltiedig â pherfformiad e.e. gofynion yswiriant, gweithdrefnau gweinyddol ac ati.
- **Manylebau**
  - Trosi'r angen busnes yn set o ofynion rhwym mewn contract y gall y sawl sy'n tendro eu deall a'u prisio.
- **Dangosyddion Perfformiad Allweddol (gall fod yn rhan o'r contract neu beidio)**
  - Rhaid iddynt fod yn seiliedig ar anghenion busnes (y fanyleb) ac yn adlewyrchu blaenoriaeth anghenion.
  - Yn mesur perfformiad gwirioneddol mewn meysydd penodol yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt.
  - Gall fod yn gysylltiedig â chymhellion a mesurau rheoli.
- **Taliadau**
  - Dylai hwn amlinellu ffurf, dull ac unrhyw amserlenni sy'n gysylltiedig â thaliadau.

## Atodiad 2: Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) yn rhan o Lywodraeth Cymru ac mae'n gweithio i reoli rhaglenni cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru. Mae egwyddorion cyffredinol y Cod Ymarfer hwn yn weithredol i WEFO, ond pan fydd angen canllaw penodol i WEFO neu fanylion pellach, bydd dolen electronig at yr wybodaeth honno. Am arweiniad, gweler: <http://wefo.wales.gov.uk/publications/guidance/?skip=1&lang=cy>

### Monitro a Gwerthuso

Yn achos arian rhaglenni Ewropeaidd, rhaid i chi sicrhau bod eich cynllun a gweithdrefnau monitro a gwerthuso'n ddigonol i ateb gofynion WEFO a'r Comisiwn Ewropeaidd, gan amlinellu'r systemau a'r dangosyddion y byddwch yn eu defnyddio, a sut y bydd eich gweithgaredd gwerthuso'n cael ei weithredu. Bydd disgwyl i chi baratoi cynllun monitro a gwerthuso yn ystod y broses o ddatblygu'r prosiect, a bydd WEFO wrth law i gynnig cyngor yng nghamau perthnasol datblygiad eich prosiect. Dilynwch y ddolen ar gyfer canllaw WEFO:

<http://wefo.wales.gov.uk/publications/guidance/monitoringandevaluating/?skip=1&lang=cy>

### Archwilio ac Arolygu

Mae Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT) Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am archwilio sampl o brosiectau sy'n cael eu hariannu gan Ewrop i gadarnhau sylwedd y gwariant sydd wedi'i ddatgan i'r Comisiwn Ewropeaidd. Am ragor o wybodaeth tarwch olwg ar:

<http://wefo.wales.gov.uk/publications/guidance/projectinspectionandaudit1/controls/?skip=1&lang=cy>

Mae Tîm Arolygu a Gwirio Prosiectau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn adolygu sampl o brosiectau a ariennir gan WEFO i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau a gofynion y Comisiwn Ewropeaidd a WEFO. Os gwelir achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth, efallai y bydd yn rhaid iddynt adennill y cyfan neu ran o arian y prosiect. Am fanylion pellach ar gwmpas adolygiad Arolygu a Gwirio Prosiectau, cliciwch ar y ddolen isod.

<http://wefo.wales.gov.uk/publications/guidance/projectinspectionandaudit1/verificationvisits/?skip=1&lang=cy>



### **Atodiad 3: Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer**

Rhaid i holl adrannau Llywodraeth Cymru gydymffurfio â'r Cod hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio hyrwyddo a dylanwadu ar yr arferion ariannu gorau, ac yn argymhell bod cyrff eraill sy'n ariannu'r Trydydd Sector yn mabwysiadu egwyddorion y Cod hwn.

Os yw Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid wedi'i neilltuo neu gyllid drwy gytundeb fframwaith, bydd rhaid i'r rheini sydd wedi cael y grant gydymffurfio â'r Cod hwn fel y nodwyd yn y Telerau ac Amodau ynghylch cyllido.

Mae'r cyrff y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r Cod hwn o ran cyllid wedi'i neilltuo neu gyllid fframwaith yn cynnwys:

#### Pob Awdurdod Lleol

#### Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru:

Cyngor Celfyddydau Cymru  
Cyngor Gofal Cymru  
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru  
Llyfrgell Genedlaethol Cymru  
Amgueddfa Genedlaethol Cymru  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru  
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru  
Cyngor Chwaraeon Cymru

#### Byrddau Iechyd Lleol y GIG:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro  
Bwrdd Iechyd Cwm Taf  
Bwrdd Iechyd Hywel Dda  
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

#### Ymddiriedolaethau'r GIG:

Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Ymddiriedolaeth GIG Felindre  
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

#### Cynghorau Iechyd Cymuned (CICau):

CIC Abertawe Bro Morgannwg  
CIC Aneurin Bevan  
CIC Betsi Cadwaladr

Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru  
CIC Brycheiniog a Maesyfed  
CIC Caerdydd a'r Fro  
CIC Cwm Taf  
CIC Hywel Dda  
CIC Trefaldwyn

#### Atodiad 4: Trothwyon caffael

Wrth ymgymryd â gweithgaredd caffael, mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r trothwyon canlynol ar gyfer prynu nwyddau, gwasanaethau neu waith.

Gwerth	Gofynion	Gweithredu
£0 - £4,999	Un dyfynbris ysgrifenedig	Defnyddio cyflenwyr wedi'u cofrestru ar <a href="http://www.gwerthwchigymru.gov.uk">www.gwerthwchigymru.gov.uk</a>
£5,000 - £24,999	Tri dyfynbris ysgrifenedig	Defnyddio cyflenwyr wedi'u cofrestru ar <a href="http://www.gwerthwchigymru.gov.uk">www.gwerthwchigymru.gov.uk</a>
£25,000 - £113,057. (Nwyddau a Gwasanaethau)	Cystadleuaeth lawn ac agored	Cyhoeddi gofyniad drwy <a href="http://www.gwerthwchigymru.gov.uk">www.gwerthwchigymru.gov.uk</a>
£25,000 - £4,348,350 (Gwaith)	Cystadleuaeth lawn ac agored	Cyhoeddi gofyniad drwy <a href="http://www.gwerthwchigymru.gov.uk">www.gwerthwchigymru.gov.uk</a>
£113,057 ac uwch (Nwyddau a Gwasanaethau Rhan A)	Cystadleuaeth lawn ac agored	Cyhoeddi gofyniad drwy Ewrop drwy <a href="http://www.sell2wales.gov.uk">www.sell2wales.gov.uk</a>
£4,348,350 ac uwch (Gwaith)	Cystadleuaeth lawn ac agored	Cyhoeddi gofyniad drwy Ewrop drwy <a href="http://www.sell2wales.gov.uk">www.sell2wales.gov.uk</a>

Dylai sefydliadau nodi y gall trothwyon uwch fod yn agored i drothwy'r gweithgarwch Caffael Ewropeaidd maent yn ymgymryd ag ef. Dylent ofyn am gyngor proffesiynol priodol ar berthnasedd a lefel y trothwyon hyn o safbwynt eu gweithgarwch caffael.

Nid yw'r trothwyon hyn yn berthnasol i awdurdodau lleol a fydd yn dilyn eu polisiau caffael lleol eu hunain.

Mae gwybodaeth bellach ar y trothwyon Caffael Ewropeaidd perthnasol ar gael yn

<http://prp.wales.gov.uk/planners/general/framework/euprocurementlegislation/euprocurementthresholds/>

## Atodiad 5: Cysylltiadau a Dolenni Defnyddiol

### Llywodraeth Cymru

Uned y Trydydd Sector: [Thirdsectorqueries@wales.gsi.gov.uk](mailto:Thirdsectorqueries@wales.gsi.gov.uk)

Gellir cysylltu â Chadeirydd Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector drwy Uned y Trydydd Sector:

Uned y Trydydd Sector  
Yr Is-Adran Gymunedau  
Llywodraeth Cymru  
Swyddfa Merthyr Tudful  
Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau : [Grantsqueries@wales.gsi.gov.uk](mailto:Grantsqueries@wales.gsi.gov.uk)

Gwerth Cymru: <http://www.sell2wales.gov.uk/Default.aspx>

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru: [www.wefo.wales.gov.uk](http://www.wefo.wales.gov.uk)

Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg: [post@welshlanguagecommissioner.org](mailto:post@welshlanguagecommissioner.org)

Yr Uned Trechu Tlodi: [TacklingPoverty-MinisterialBusiness@wales.gsi.gov.uk](mailto:TacklingPoverty-MinisterialBusiness@wales.gsi.gov.uk)

### Y Trydydd Sector

CGGC: <http://www.wcva.org.uk/home?seq.lang=cy-GB>

Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddolwyr:  
<http://www.wcva.org.uk/members-partners/county-voluntary-councils>

### Dogfennau canllawiau ychwanegol:

*Mae Grantiau a chontractau: Canllawiau ar gyfer mudiadau trydydd sector ac awdurdodau cyhoeddus wedi cael ei lunio ar y cyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) a Gwasanaethau Gwirfoddol Cyngor Abertawe, a gellir gweld y ddogfen yma:*

*[http://www.wcva.org.uk/media/666585/wcva\\_grants\\_\\_\\_contracts\\_e.pdf](http://www.wcva.org.uk/media/666585/wcva_grants___contracts_e.pdf)*

*Gellir gweld Grantiau, benthyciadau a nawdd: ystyried y Gymraeg gan Gomisiynydd y Gymraeg yma:*

*<http://www.comisiynyddygyymraeg.org/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20120402%20DG%20C%20Dogfen%20Cyngor%20Grantiau%20f1.pdf>*